

Datganiadau Ariannol
am y
Flwyddyn hyd at
31 Gorffennaf 2016

CYNNWYS

Tudalen

YMDDIRIEDOLWYR Y BRIFYSGOL	1
YMGYNGHORWYR PROFFESIYNOL.....	2
ADRODDIAD Y TRYSORYDD	3-8
RHEOLAETH GORFFORAETHOL.....	9-10
DATGANIAD BUDD CYHOEDDUS.....	11
CYFRIFOLDEBAU CYNGOR Y BRIFYSGOL	12
ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL	13-14
DATGANIAD AM Y PRIF BOLISIŌAU CYFRIFEG.....	15-21
DATGANIAD CYFUN O INCOWM CYNHWYSFAWR	22
MANTOLEN GYFUN A MANTOLEN Y BRIFYSGOL	23
DATGANIAD CYFUN A DATGANIAD Y BRIFYSGOL O NEWIDIADAU YN YR ARIAN WRTH GEFN	24
DATGANIAD CYFUN O'R LLIF ARIAN.....	25
NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL.....	26-50

YMDDIRIEDOLWYR Y BRIFYSGOL

Dyma Ymddiriedolwyr y Brifysgol i'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2016, a hyd at gyfarfod y Cyngor lle y cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn yn ffurfiol:

Aelodau Annibynnol

Ex-officio

Syr Emyr Jones Parry, Canghellor a Chadeirydd y Cyngor (5/5)
Mrs Elizabeth France CBE, Dirprwy Ganghellor (5/5)
Miss Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Ganghellor (5/5)
Dr Glyn Rowlands, Dirprwy Ganghellor (4/5)
Dr Timothy Brain OBE, Trysorydd (5/5)
Mr George Ashworth (2/5)
Ms Anne Davies (4/5)
Mrs Janet Davies (3/5)
Mr Keith Evans (5/5)
Mr Richard John (4/5)
Y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd (3/5)
Mr Ian MacEachern OBE (5/5)
Dr Emyr Roberts (3/5)

Aelodau Staff / Myfyrwyr

Ex-officio

Yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor [tan 31 Ionawr 2016] (2/2)
Yr Athro John Grattan, Is-Ganghellor Dros Dro [o 01 Chwefror 2016, Dirprwy Is-Ganghellor gynt] (5/5)
Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (4/5)
Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (5/5)
Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (4/5)

Aelodau o'r Senedd

Dr Hazel Davey [o 01 Medi 2016]
Yr Athro Neil Glasser (4/5)
Dr Joseph Ironside [tan 31 Awst 2016] (5/5)
Dr Jenny Mathers [o 30 Medi 2015] (5/5)
Yr Athro David Trotter [tan 24 Awst 2015] (0/0)

Aelod o'r Staff Anacademaidd

Mr Nigel Thomas [tan 30 Hydref 2015] (1/1)
Ms Jackie Sayce [o 31 Hydref 2015] (2/4)

Aelodau yn Cynrychioli'r Myfyrwyr

Mr Rhun Dafydd, Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Prifysgol Aberystwyth [o 01 Gorffennaf 2016]
Mr Lewis Donnelly, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth [tan 30 Mehefin 2016] (5/5)
Miss Lauren Marks, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth [o 01 Gorffennaf 2016]
Miss Hanna Merrigan, Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Prifysgol Aberystwyth [tan 30 Mehefin 2016] (4/5)

Rhoddir gwybodaeth am bresenoldeb aelodau'r Cyngor a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2016, wedi'i rhoi ar ffurf y nifer o gyfarfodydd y Cyngor yr aethpwyd iddynt allan o'r cyfanswm o gyfarfodydd yr oedd disgwyl i'r aelod fynd iddynt.

YMGYNGHORWYR PROFFESIYNOL

Archwilwyr allanol ac ymgynghorwyr ar dreth gorfforaethol

KPMG LLP

3 Assembly Square
Britannia Quay
Caerdydd
CF10 4AX

Archwilwyr mewnol

Deloitte LLP
The Pinnacle
150 Midsummer Boulevard
Milton Keynes
Buckinghamshire
MK9 1FD

Bancwyr

Lloyds Bank
4th Floor
St William House
Tresillian Terrace
Caerdydd
CF10 5BH

Cyfreithwyr

Eversheds LLP
Bridgewater Place
Water Lane
Leeds
LS11 5DR

Bond Dickinson LLP
3 Temple Quay
Temple Back East
Bryste
BS1 6DZ

Ymgynghorwyr actiwraidd a phensiynau

Mercer Limited
1 Tower Place West
Tower Place
Llundain
EC3R 5BU

ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Mae Prifysgol Aberystwyth yn gweithredu mewn hinsawdd heriol, yn academiaidd ac yn economaidd, ond er gwaethaf hynny, mae'n dal i reoli ei sefyllfa ariannol yn effeithiol ac effeithlon.

Nod Prifysgol Aberystwyth yw galluogi myfyrwyr i ddysgu a byw mewn amgylchedd eithriadol.

Mae ein strategaeth ariannol wedi'i llunio felly i sicrhau hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor y Brifysgol drwy greu cynlluniau ariannol sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr ac sy'n golygu bod y ddarpariaeth academiaidd yn cyd-fynd ag anghenion y myfyrwyr, ac sy'n anelu at greu gweddillion ariannol y gellir eu buddsoddi i gynnal a chyfoethogi amgylchedd dysgu deniadol.

Mae diwyg y Datganiadau Ariannol yn wahanol i'r rhai a gyflwynwyd yn y blynyddoedd blaenorol gan mai'r rhain yw'r cyntaf a baratowyd yn ôl safonau adrodd newydd y Cyngor Safonau Adrodd Ariannol, sef FRS102.

Am y tro cyntaf mae'r datganiadau hyn hefyd yn cynnwys datganiadau ariannol cyfun sy'n ymdrin â dau is-gorff newydd, sef Campws Arloesi a Menter Aberystwyth Cyf (CAMA) a Phrifysgol Aberystwyth Mawrisiws.

Cymarebau Iechyd Ariannol

Mae'r Brifysgol yn defnyddio sawl Dangosydd Perfformiad Allweddol i fonitro iechyd ariannol y Brifysgol. Mae tri o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol y tu allwn i ystod darged y Brifysgol o ganlyniad i'r diffyg ar gyfer 2015-16 a gynlluniwyd yn rhan o raglen adfer strwythurol y Brifysgol. Dyma grynodedeb o'r perfformiad yn ôl y Dangosyddion Perfformio Allweddol:

Y Dangosyddion o fewn y targedau

- Mae'r gronfa gynradd (arian parod wrth gefn) wedi gwella ychydig o 142 diwrnod i 149 diwrnod sy'n deillio o gynnydd £2.1 miliwn mewn arian parod ac arian yn y banc.
- Mae cymhareb y ddyled wedi gwella ychydig, o 124 y cant i 121 y cant.

Y cymarebau y tu allan i'r targedau

- Mae sicrwydd yr Arian Cyffredinol wrth Gefn wedi syrthio o 139 diwrnod i 88 diwrnod oherwydd bod y rhwymedigaethau net am bensiynau wedi cynyddu o ganlyniad i gwmp cynnyrch bondiau. Mae safon FRS102 hefyd wedi effeithio ar yr Arian Cyffredinol wrth Gefn gan ei bod yn cyflwyno rhwymedigaeth am Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) am y tro cyntaf.
- Mae gwerth y Fantolen wedi disgyn oherwydd bod y Brifysgol yn wynebu rhwymedigaeth uwch o ran pensiynau ac oherwydd y cafwyd colled am y flwyddyn.
- Mae'r canlyniad negyddol a gedwir yn cynrychioli diffyg am y flwyddyn fel cyfran o gyfanswm yr incwm.

Mesurau Iechyd Ariannol	2015-16	2014-15
Mesurau wrth gefn (diwrnodau)		
Sicrwydd cronfa gynradd wrth gefn (arian parod)	149 diwrnod	142 diwrnod
Sicrwydd cronfa wrth gefn (yn ôl y llyfr)	88 diwrnod	139 diwrnod
Cymhareb y ddyled (dyled allanol/arian parod)	121%	124%
Cymhareb twf y fantolen	(7.9%)	(0.1%)
Ailgyflenwi incwm		
Canlyniad a gedwir (y cant o'r incwm)	(4.2%)	(1.1%)

ADRODDIAD Y TRYSORYDD (parhad)


Perfformiad Ariannol 2015-16

Yn unol â'r hyn a nodwyd yn Natganiadau Ariannol 2014-15, rhagamcanwyd y byddai diffygion yn 2015-16 a 2016-17 wrth i'r niferoedd myfyrwyr gyrraedd eu hisafbwynt yn ôl y rhagolygon cyn y cynnydd arfaethedig. Wedi cydnabod y broblem hon, mae'r Brifysgol wedi rhoi ar waith gynllun adfer i leihau isadeiledd costau'r Brifysgol ac i hybu cynhyrchu incwm yn y dyfodol. O dan y cynllun adfer, mae'r Brifysgol wedi cynllunio am ddiffyg cyllidebol ar gyfer 2015-16, cyn enillion a cholledion, sef £7.9 miliwn ac mae'r gwir berfformiad ariannol yn well na'r gyllideb honno.

Incwm


Mae niferoedd llai o fyfyrwyr wedi arwain at gwmp £7.2 miliwn yn incwm y Brifysgol, (5.5 y cant) o gymharu â ffigur 2014-15. O hyn, mae £4.2 miliwn yn deillio o'r cwmp mewn incwm o ffoedd dysgu, ac mae £2.1 miliwn wedi dod o'r cwmp yn yr incwm o'r llety.

Ffynhonnell Incwm (2015-16)



- Ffioedd dysgu
- Grantiau cyllido
- Grantiau a chontractau ymchwil
- Incwm arall
- Buddsoddiadau a rhoddion

Newid Incwm £ miliwn (cymharu 2015-16 â 2014-15)



Gwariant

Mae'r Brifysgol wedi rheoli ei chostau yn effeithlon. Mae'r Cynllun Adfer yn dal i yrru gwell Gwerth am Arian yn 2015-16. Dyma'r prif gamau a gymerwyd i arbed arian:

- Rheolaeth lem ar yr adrannau academaidd a phroffesiynol o ran penodi staff, ynghyd â threfniadau Ymddiswyddo Gwirfoddol a throsiant staff naturiol; a
- Camau ffurfiol i ail-drefnu
 - Canolfan y Celfyddydau
 - Y Feithrinfa (wedi'i chau)
 - Gwasanaethau Campws (Cam 2)

O ganlyniad mae'r Brifysgol wedi llwyddo i reoli'r gwariant ar gyflogau staff. Syrthiodd costau cyflogau £0.6 miliwn (1 y cant). Mae hyn yn golygu 5 y cant o arbedion gwirioneddol o gofio bod y Brifysgol wedi wynebu pwysau chwyddiant 4 y cant ar gostau staffio.

Ffactor ychwanegol a gyfrannodd at y cwmp yn y costau staffio yw'r ffaith bod cynllun pensiwn yr USS yn costio llai i'r Brifysgol. Yn 2015-16 roedd cost addasiad cyfrifo £0.9 miliwn, nad oedd yn arian parod, oherwydd cynllun pensiwn yr USS, o gymharu â chost addasiad cyfrifo £3.9 miliwn heb fod yn arian parod, yn 2014-15.

O ganlyniad, mae costau staffio £5.1miliwn yn llai yn 2015-16 na rhai 2014-15.

Drwy ganolbwyntio'n glir ar reoli gwariant gweithredol arall, cafwyd £2.3 miliwn o arbedion ar y 'Treuliau Gweithredu Eraill'

ADRODDIAD Y TRYSORYDD (parhad)


Datblygiadau

Yn 2015-16 dechreuodd ein menter ar y cyd ym Mawrisiws - sef Aberystwyth Ltd - weithredu gan groesawu ei blwyddyn gyntaf o fyfyrwyr. Cynhyrchodd Aberystwyth Ltd £173,000 o incwm i'r flwyddyn ac roedd gan y Brifysgol £375,000 o gostau net. Mae hynny'n adlewyrchu'r ffaith mai dim ond un flwyddyn o fyfyrwyr yn talu ffioedd oedd ar y campws.


Yr ail ddatblygiad arwyddocaol sydd ar droed yw safle newydd Campws Menter ac Arloesi Aberystwyth ym Mhenrhyn-coch. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y gwaith dylunio yn cael ei gwblhau, ac mae'n debyg y penodir contractwyr adeiladu ar ddechrau 2017.

Mae costau dibrisio wedi cynyddu gan mai dyma'r tro cyntaf i flwyddyn gyfan o ddbrisio am lety Fferm Penglais gael ei chynnwys yn y Datganiad Incwm Cyfunedig. Yn ystod 2014-15 roedd y Brifysgol yn tynnu i lawr arian parod o law Legal & General i gwblhau gwaith adeiladu Fferm Penglais. Cyfrifon 2015-16 yw'r rhai cyntaf i gynnwys costau llog y cyfan o'r arian parod a dynnwyd i lawr.

Rhandoriad Gwariant (2015-16)



Newid Gwariant £ miliwn (cymharu 2015-16 â 2014-15)



Y Fantolen

At ei gilydd, mae gwerth yr asedau net wedi disgyn £12.9 miliwn o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2014-15. Daw hyn yn bennaf o gynnydd gwerth rhwymedigaeth y pensiynau, sef £10.7miliwn (gweler 'Pensiynau' isod).

£ miliynau	Asedau Sefydlog	Buddsodiadau	Banc ac Arian Parod	Credydwyr Hirdymor	Rhwymedigaeth Pensiynau
2015-16	237.7	34.0	40.2	101.6	37.0
2014-15	243.1	31.9	38.1	104.1	26.3
	↓	↑	↑	↓	↑

Asedau Sefydlog

£5.2 miliwn oedd cyfanswm yr Ychwanegiadau Cyfalaf yn y flwyddyn. Mae £1.2 miliwn o hynny'n ymwneud â chyfarpar ymchwil newydd a ariannwyd drwy grantiau. Mae'r elfennau sy'n weddill yn ymwneud â gwaith i wella profiad y myfyrwyr ar y campws drwy ailwampio ac adnewyddu ein Hystafelloedd Dysgu yn llwyr, yn ogystal ag ymdrin â gwaith a nodwyd o dan y rhaglen gyfalaf Diogelu a Sefydlogi. Roedd cyfanswm ein gwariant cyfalaf yn llai na gwerth y dibrisiant am y flwyddyn a lleihaodd gwerth ein hasedau sefydlog £5.4 miliwn.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD (parhad)

Gwaddolion

Cyfnewidiol fu perfformiad y buddsoddiadau. Yn y mis ar ôl y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd, roedd gwerthoedd asedau buddsoddi yn ansefydlog iawn, yn syrthio ar y cyntaf ac yn cynyddu eu gwerth wedyn. Cafwyd 9.2 y cant o adenillion ar ein buddsoddiadau am y flwyddyn; yn ôl ein polisi, 9.8 y cant oedd y meincnod.

Yn ystod y flwyddyn archwiliad broffil ein buddsoddiadau ac fe agorwyd ein buddsoddiadau yn ehangach i Farchnadoedd Rhyngwladol ac i Ecwiti Marchnadoedd sy'n Datblygu.

Rydym hefyd yn ddiolch i ddau o'n cyn-fyfyrrwyr am ddarparu gwaddol newydd hael, sef cyfanswm o £500,000 i gynorthwyo myfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol yn ystod y flwyddyn.

Arian Parod ac Adneuron Byrdymor

Cafodd y Brifysgol lif positif o arian parod i mewn, sef £7.3 miliwn (6 y cant o'r trosiant), o'i gweithgareddau o gymharu â £6.0 miliwn (5 y cant o'r trosiant) yn 2014-15. O'r llif hwnnw o arian parod, gellir olrhain gwerth £2.8 miliwn i ddull mwy effeithiol o reoli cyfalaf gweithio.

Ar ôl cyfrifo am weithgareddau buddsoddi a phrynu eitemau newydd o gyfalaf ac am dalu llog, cynyddodd gwerth Arian Parod ac Adneuron Byrdymor £2.1 miliwn.

Pensiynau

Mae'r Brifysgol yn cyfranogi at bedwar cynllun pensiwn, sef Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) (aml-gyflogwr, buddiannau diffiniedig), Cynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA) (wedi'i gau, buddiannau diffiniedig), Cronfa Bensiwn Dyfed (CBD) (buddiannau diffiniedig, ar gau) a Chynllun Pensiwn Prifysgol Aberystwyth (CPPA) (cyfraniadau diffiniedig).

- Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) - o dan FRS102, mae'r Brifysgol wedi cofnodi rhwymedigaeth ar y fantolen am y tro cyntaf. Gwerth y rhwymedigaeth hon yw'r amcangyfrif gorau presennol o werth y taliadau i leihau diffyg y mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'w gwneud dros yr 20 mlynedd nesaf.
- Cynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA) - mae cwmp mewn cynnyrch bondiau wedi arwain at gynydd yng ngwerth actiwaraid rhwymedigaethau CPAPA, gyda £10.2 miliwn o gost gysylltiedig.
- Cronfa Bensiwn Dyfed - mae cwmp mewn cynnyrch bondiau wedi cynyddu gwerth actiwaraid y rhwymedigaethau, gan arwain at £0.2 miliwn o gost gysylltiedig.

Prif faterion risg ac ansicrwydd

Mae'r Brifysgol wedi nodi sawl risg strategol ar lefel uwch sy'n cael eu monitro ganddi yn rheolaidd. Fe'u disgrifir o dan y penawdau Denu a Chadw Myfyrwyr, Enw Da, a Chynaliadwyedd Ariannol.

Denu a chadw myfyrwyr - Mae sector Addysg Uwch yn hynod gystadleuol, ac yn y blynyddoedd diweddar, nid yw'r Brifysgol wedi cyrraedd ei thargedau mewnol. Mae'r Brifysgol yn ei gwahaniaethu ei hunan oddi wrth ei chystadleuwyr drwy gynnig i'w myfyrwyr y cyfle i ddysgu a byw mewn amgylchedd eithriadol drwy ganolbwyntio ar ymchwil o safon uchel, rhagoriaeth ei dysgu, a phrofiad ei myfyrwyr, yn ogystal â chynnig addysg a arweinir gan waith ymchwil. Serch hynny, mae'r aildrefnu sy'n digwydd yng nghyllido ymchwil yn y DU a chanlyniad y refferendwm ar aelodaeth Prydain o'r Undeb Ewropeaidd wedi creu ansicrwydd, o ran ein gallu i ddenu myfyrwyr o'r UE a hefyd o ran lefelau'r cyllid sydd ar gael i sector addysg uwch Prydain. Mae'r ansicrwydd hwnnw yn gwaethgu ymhellach y tensiwn sy'n deillio o'r sefyllfa lle y cyllidir ymchwil ar lefel y DU, ond mae cyfrifoldeb dros addysg uwch wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru.

Enw da - Mae'n debyg bod safle anffafriol y Brifysgol mewn tablau cynghrair a gyhoeddwyd yn y blynyddoedd diweddar wedi cyfrannu at ein methiant i gyrraedd ein targedau i ddenu myfyrwyr. Mae ein safle yn y tablau wedi gwella'n sylweddoli yn sgil y rhaglen lwyddiannus ar foddhad myfyrwyr.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD (parhad)

Cynaliadwyedd ariannol– Mae'r Brifysgol yn gweithredu mewn marchnad newydd a chystadleuol iawn lle mae cystadleuaeth frwd iawn am fyfyrwyr, mae lefelau'r ffioedd dysgu wedi'u capio ac mae'r gwariant o dan bwysau cynnydd prisiau oherwydd chwyddiant. Mae hi'n bwysicach nag erioed o'r blaen ein bod yn gallu creu digon o warged o arian parod i alluogi buddsoddi strategol ym mhrofiad y myfyrwyr, yr isadeiledd a'r staff. Mae'r Brifysgol yn mynd i'r afael â'r risg hon drwy roi cynllun adfer ar waith gyda chynllun cyfatebol academaidd sy'n anelu at sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol yn cyd-fynd ag anghenion y myfyrwyr.

Mae rhwymedigaethau'r ddau gynllun buddiannau diffiniedig, sef yr USS a CPAPA, yn dal i fod yn destun pryder, ond maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac rydym yn cymryd cyngor proffesiynol. Mae'r Brifysgol wedi cau'r cynllun buddiannau diffiniedig mewnol, sef CPAPA, ac mae hynny'n lleihau'r risg yn y cynllun hwn yn sylweddol.

FRS102 a newidiadau i'r modd y cyflwynir y cyfrifon

Oherwydd safon FRS102 mae ffurf Datganiadau Ariannol Prifysgol Aberystwyth wedi newid. Yn y tablau isod dangosir y rhai pwysicaf. Mae'r tabl cyntaf yn dangos yr addasiadau yr oedd angen eu gwneud i gael y Fantolen Gyfun gychwynnol ar gyfer 2015-16, i gyd-fynd â safon FRS102. Mae'r ail dabl yn dangos effaith yr addasiadau am FRS102 ar y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr ar gyfer 2015-16.

Addasiadau a Wnaed ar gyfer safon FRS102	£m
Diffyg a gydnabyddir o ran cynllun pensiwn USS	(13.0)
Dangosir grantiau cyfalaf o dan gredydwy'r erbyn hyn	(52.0)
Cofnodir cronid am wyliau staff nas cymerwyd yn y flwyddyn hyd yma	(1.9)
Tir ac Adeiladau wedi'u hailbriso fel digwyddiad untro	46.7
Ailbriso eiddo buddsoddi	4.6
Cyfanswm	(15.6)
Effaith ar y Datganiad Cyfun o Incwm ar gyfer 2015-16	£m
Enillion am y Flwyddyn a ddangoswyd gynt yn y Crynodeb o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig Atodlen yr Enillion a'r Colledigion Cydnabyddedig	
Enillion ar fuddsoddiadau	2.7
Colled actiwaraid o ran y cynlluniau pensiwn	(10.5)
Newidiadau eraill	(1.5)
Cyfanswm	(9.3)

Y Rhagolygon a'r Dyfodol

Mae ein cynllunio ariannol ar gyfer 2016-17, ac ymlaen i'r blynnyddoedd 2019-20, wedi'i seilio ar greu 'Rhagoriaeth i Fyfrwyr'. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd y myfyrwyr yn yr amgylchedd cystadleuol newydd sydd ohoni. Mae'r adrannau isod yn rhoi braslun o brif feysydd cynlluniau'r Brifysgol.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD (parhad)

Prif Amcanion y Brifysgol

Dyma brif amcanion y Brifysgol sy'n sail i'n cynlluniau at y dyfodol:

- hyrwyddo dysg a gwybodaeth drwy addysgu ac ymchwil a thrwy esiampl a dylanwad ei bywyd corfforaethol;
- darparu hyfforddiant a chysiau astudio i'r rhai sydd yn ceisio ennill graddau a dyfarniadau eraill y Brifysgol neu sefydliadau eraill, ac i bobl eraill;
- hybu a gwneud darpariaeth ar gyfer ymchwil ac ar gyfer ehangu, lledaenu, diogelu a chymhwysu gwybodaeth drwy'r dulliau hynny y penderfynir y Brifysgol arnynt;
- datblygu potensial myfyrwyr y Brifysgol a'u paratoi ar gyfer cyflogaeth;
- rhoi sylw arbennig, gan weithredu ar ei phen ei hun neu ar y cyd ag eraill, i anghenion addysgol Cymru, gyda golwg ar yr iaith Gymraeg a diwylliant, datblygiad economaidd a thraddodiadau cymdeithasol Cymru.

Amgylchedd Addysg Uwch

Bydd y gystadleuaeth am fyfyrwyr yn mynd yn fwyfwy dwys wrth i'r papur gwyn ar Addysg Uwch a gyhoeddwyd yn 2016, *Success as a Knowledge Economy: Teaching Excellence, Social Mobility and Student Choice* hybu'r sector i ddarparwyr newydd a dulliau newydd o gyflwyno darpariaeth academaidd. Ar ben hynny, mae'r cap ar ffioedd dysgu yn aros ar £9,000 i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth. Mae'r cap hwnnw yn anwybyddu pwysau chwyddiant a'r £250 o fwlch sy'n agor i fyfyrwyr yn Lloegr.

Mae'r ansicrwydd sydd wedi codi yn sgil y refferendwm ar fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd yn gwaethgu sefyllfa'r Brifysgol ymhellach gan ei bod yn debyg y bydd yn cael effaith sylweddoli ar y nifer o fyfyrwyr sydd am ddod o'r UE i astudio yng ngwledydd Prydain. Mae canlyniad y refferendwm hefyd yn creu ansicrwydd ynghylch cyllid ymchwil. Felly, o gyllideb grantiau ymchwil y Brifysgol, mae'r 17 y cant ohoni sy'n dod o'r UE erbyn hyn yn fwy ansicr byth.

Ymateb

Mae'r Brifysgol wedi bod yn gweithredu cynllun adfer rhwng 2013-14 a 2015-16, ac mae hynny wedi golygu bod y sylfaen costau wedi aros yn wastad am bedair blynedd, er gwaethaf effaith chwyddiant.

Yn y dyfodol bydd y Cynllun Cyfateb Academaidd yn canolbwyntio ar sicrhau bod y ddarpariaeth dysgu yn cyfateb i amcanion myfyrwyr y brifysgol. Yn sgil elfen effeithlonrwydd lwyddiannus y cynllun adfer, mae ail raglen o doriadau wedi'i lansio i sicrhau bod costau ein hisadeiledd wedi'u cwtogi i'r maint iawn. Byddwn yn dal i ddefnyddio Diswyddo Gwirfoddol i reoli costau staffio ac mae cynlluniau penodol yn yr arfaeth i'r Ffermydd ac i'r ddarpariaeth Gymraeg i Oedolion.

Rhaid i'r Brifysgol hefyd ganolbwyntio ar farchnata ac ar ddenu myfyrwyr. Seilir y gwaith hwn ar bortffolio o raglenni o ansawdd uchel a chanddynt hunaniaethau clir; ar berthynas dda â'n hysgolion bwydo; ac ar gyswllt unigol a chefnogol â'n hymgeiswyr.

O ran yr elfen o'n cynlluniau sy'n canolbwyntio ar dyfiant ein blaenoriaethau yw darpariaeth dysgu sy'n drwyadl ragorol a sefydlu adran arweiniol i gynnal gwaith marchnata a denu myfyrwyr. Mae'r ddwy flaenoriaeth hyn wedi'u hymgorffori yn ein cynlluniau ariannol at y dyfodol, gyda chyllid ysgogol i roi'r newidiadau angenrheidiol ar waith, ac rydym wedi comisiynu The Knowledge Partnership i gynnal adolygiad ar waith dysgu a denu myfyrwyr yr holl adrannau yn y Brifysgol.

Yn ogystal â'r gwaith arfaethedig ar y ddarpariaeth dysgu, mae'r gwaith diweddar a wnaed yn canolbwyntio ar brofiad y myfyrwyr wedi arwain at gynnydd yn y tablau, ac rydym wedi gweld Prifysgol Aberystwyth yn codi i'r 4ydd safle yng ngwledydd Prydain am Fodddhad Myfyrwyr a'r 10fed safle am Ragoriaeth Dysgu. Rydym wedi codi o rif 79 i rif 56 yn The Times and Sunday Times Good University Guide. Ein nod nawr yw manteisio ar y gwelliant hwnnw, a sicrhau bod Prifysgol Aberystwyth yn gyrchfan i fwyfwy o fyfyrwyr lle y gallant fyw a dysgu mewn amgylchedd eithriadol.

Unwaith eto hoffwn ddiolch i Daniel Benham, y Cyfarwyddwr Cyllid, a'i staff yn eu gwaith gydol y flwyddyn.

Timothy Brain
Trysorydd

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

Yn unol â Siarter Frenhinol Ategol 2014 Prifysgol Aberystwyth, Cyngor y sefydliad yw 'corff llywodraethol goruchaf y Brifysgol' ac mae'n gyfrifol am benderfynu ar gyfeiriad strategol y Brifysgol ac 'am y modd y gweithredir materion ariannol a gweinyddol, a materion eraill y Brifysgol, yn unol â'i hamcanion.'

Yn unol â gofynion Statudau'r Brifysgol; mae'r Cyngor yn cynnwys: Aelodau Annibynnol (rhai ohonynt yn gwasanaethu ex-officio); aelodau staff ex-officio; ac aelodau cynrychioliadol a etholir gan y Senedd, y staff anacademaidd a'r myfyrwyr. Caiff y Cyngor hefyd gyfethol aelodau ychwanegol os dymuna wneud hynny, er nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Ni fydd cyfanswm aelodaeth y Cyngor yn fwy na 25.

Aelodau Annibynnol anweithredol yw'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor, nad ydynt yn aelodau o'r staff nac yn fyfyrwyr y Brifysgol. Ar ben hynny, mae swyddogaeth Cadeirydd y Cyngor - sydd ar gael i Aelod Annibynnol yn unig - wedi'i gwahanu oddi ar swyddogaeth Prif Weithredwr y Brifysgol, sef yr Is-Ganghellor.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb, ac mae'n ymdrechu i fod yn gynhwysol ac i werthfawrogi natur amrywiol ei staff, ei myfyrwyr a'i chymuned. Hysbysebwr pob swydd wag am Aelodau Annibynnol y Cyngor yn allanol, ac mae croeso enwedig pan geir diddordeb o blith grwpiau a dangynrychiolir. Mae'r mynegiannau o ddiddordeb fel rheol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau a'u pwysu a'u mesur yn ôl aelodaeth bresennol y Cyngor i sicrhau bod gan ei aelodau ystod o sgiliau sy'n bodloni gofynion y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn anelu at ymgymryd â'i gwaith mewn modd moesegol yn unol â'r saith egwyddor a osodwyd yn Adroddiad Pwyllgor Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwymo i arddel yr arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol, gan roi ar waith yr egwyddorion craidd a'r saith elfen sylfaenol o lywodraethu fel y'u gosodwyd yn 'Cod Llywodraethu Addysg Uwch' Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (Rhagfyr 2014) yn ogystal â'r egwyddorion perthnasol a roddir yn 'Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU' a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol.

Cynhaliodd y Cyngor ei adolygiad diweddaraf ar effeithiolrwydd llywodraethu'r Brifysgol yn ystod gwanwyn 2015, gan ddefnyddio 'Cod Llywodraethu Addysg Uwch' a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion ychydig o fisoedd cyn hynny. Mae'r Cyngor yn anelu at wella llywodraethu a pherfformiad y sefydliad yn barhaus, a bydd sawl gwelliant a gynigiwyd yn rhan o'r adolygiad diweddaraf ar effeithiolrwydd y llywodraethu yn cael eu gweithredu dros y blynyddoedd academaidd nesaf.

Disgrifir prif gyfrifoldebau'r Cyngor yn Ystatudau ac Ordinhadau'r Brifysgol. Yn ôl yr arfer ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol y cytunwyd arno â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'r Cyngor yn dal iddo'i hun, ymysg pethau eraill, gyfrifoldeb am gymeradwyo datblygiadau a gwariant sylweddol, ac am sefydlu unrhyw is-gwmnïau ac am weithgareddau'r is-gwmnïau hynny.

Cyfarfu'r Cyngor bum gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd 2015-16. Ymdrinnir â llawer o'r gwaith manwl gan sawl is-bwyllgor, gan gynnwys: y Pwyllgor Archwilio a Risg; y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth; y Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb; a'r Pwyllgor Taliadau Uwch. Mae pob un o'r is-bwyllgorau hyn yn cyflwyno eu hadroddiadau i'r Cyngor, ac mae pob un wedi'i sefydlu'n ffurfiol â'i gylch gorchwyl ei hun a chyfran o'i aelodau yn dod o blith Aelodaeth Annibynnol y Cyngor. Mae gwybodaeth fanwl am aelodaeth a chyfrifoldebau'r is-bwyllgorau hyn i'w chael ar ein gwefan.

Sefydlwyd y Pwyllgor Taliadau Uwch i ystyried a phennu materion sy'n ymwneud â thalu Staff Uwch y Brifysgol, o fewn fframwaith cyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor yn rhan o gylch gorchwyl diffiniedig yr is-bwyllgor hwn. Wrth gytuno i unrhyw newidiadau i'r tâl a roddir i'r Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Ganghellorion ac aelodau eraill o Grŵp Gweithredol y Brifysgol, mae'r Pwyllgor Taliadau Uwch yn ystyried i ba raddau y gellir fforddio unrhyw benderfyniadau o'r fath. Mae'r Pwyllgor Taliadau Uwch yn rhoi adroddiadau i'r Cyngor ar ei holl benderfyniadau.

Yn y pen draw, Cyngor y Brifysgol sy'n gyfrifol am drefniadau rheoli mewnol y Brifysgol ac am arolygu effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Bwriad trefniadaeth o'r fath yw rheoli'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes yn hytrach na chael gwared a'r risg honno, a bydd yn cynnig sicrwydd rhesymol yn unig – nid sicrwydd absoliwt – yn erbyn camddatgan neu golled sylweddol.

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL (parhad)

Cred y Cyngor fod proses barhaus ar gyfer canfod, gwerthuso a rheoli risgiau arwyddocaol y Brifysgol; ac iddi fod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2016 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol; ei bod yn cael ei hadolygu gan y corff llywodraethol yn rheolaidd; a'i bod yn cydymffurfio â chanllawiau rheoli mewnlol i Gyfarwyddwyr yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU, fel y'i diwygiwyd gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am gwrdd â'r Archwilwyr Allanol i drafod canfyddiadau'r archwiliad, ac am gwrdd â'r Archwilwyr Mewnlol i ystyried adroddiadau manwl ar archwiliadau mewnlol ac argymhellion i wella trefniadau rheoli mewnlol y Brifysgol, ynghyd ag ymateb y rheolwyr a'u cynlluniau gweithredu. Mae'r is-bwyllgor hwn hefyd yn monitro sut y glynir wrth y gofynion rheoliadol, ac yn arolygu datganiadau ariannol blynyddol y Brifysgol ynghyd â'r polisiau cyfrifo. Ar ben hynny, gellid gofyn iddynt archwilio i enghreifftiau lle na chydymffurfiwyd â deddfwriaeth a rheoliadau eraill.

Er bod uwch-swyddogion gweithredol yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ôl yr angen, nid ydynt yn aelodau o'r is-bwyllgor hwnnw, a gall aelodau'r is-bwyllgor gwrdd â'r Archwilwyr ar eu pen eu hunain er mwyn cael trafodaethau annibynnol.

Mae gan Bwyllgor Rheoli Risg y Brifysgol, a arweinir gan y Weithrediaeth, brosesau ffurfiol ar waith i werthuso a rheoli risgiau sylweddol y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu. Mae hynny'n cynnwys nodi'r mathau o risgiau y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu, gan eu blaenoriaethu o ran eu heffaith ddichonol ac o ran pa mor debyg ydynt o ddigwydd, a chytuno ar ffyrdd o leihau'r risgiau hynny. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys risgiau i fusnes, gweithredu, enw da a chyllid, ac maent yn cael eu monitro, ynghyd â'r dulliau rheoli cysylltiedig, yn barhaus. Rhoddir adroddiadau ac argymhellion priodol i'r Cyngor, drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae gan y Brifysgol Gynllun Cyhoeddi y cytunwyd arno sy'n pennu'r wybodaeth a fydd yn cael ei darparu i'r cyhoedd gan y sefydliad. Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan. Ar ôl i'r datganiadau ariannol gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor, fe'u cyhoeddir ar wefan y Brifysgol, ynghyd â'r datganiadau sy'n ymwneud â blynyddoedd academiaidd ac ariannol blaenorol.

DATGANIAD O FUDD CYHOEDDUS

Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestredig (Rhif 1145141) yn unol â thelerau Deddf Elusennau 2011. Wrth bennu ac adolygu nodau ac amcanion y Brifysgol, mae Cyngor y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar y budd cyhoeddus a'r canllawiau ategol i elusennau a sefydlwyd at ddibenion addysgiadol.

Ers 1872 mae'r Brifysgol yn hybu rhagoriaeth mewn ymchwil a dysgu o dan ei harwyddair, 'Nid byd, byd heb wybodaeth'. Credwn yn gryf y dylai profiad y myfyriwr feithrin chwilfrydedd academiaidd, ac awydd am ddysg a datblygu personol sy'n para gydol oes ac sy'n trawsnewid bywydau. Rydym yn gwerthfawrogi arloesedd a rhagoriaeth mewn ymchwil ym mhob maes a disgyblaeth, ac rydym yn annog gwaith ar draws y disgyblaethau er mwyn ymdrin â heriau byd-eang. Anelwn at chwalu'r meini tramgwydd sy'n rhwystro pobl rhag gallu manteisio ar addysg ac rydym yn cydweithio'n agos â'r gymuned er mwyn sicrhau bod y drysau i'n darpariaeth yn cael eu hagor yn lletach. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod ein myfyrwyr yn llwyddiannus, ym mhob ystyr, a bod cyn-fyfyrwyr Aberystwyth yn effeithio'n fuddiol ar y cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Dysgu

Ein cenhadaeth greiddiol yw cynhyrchu graddedigion hyddysg, medrus a hyderus sydd wedi'u paratoi'n drylwyr i fyd gwaith ac i waith y byd. Rydym yn gwneud hynny drwy ddarparu dysgu rhagorol ar draws 18 maes academiaidd a thrwy ymgorffori cyflogadwyedd, sgiliau trosglwyddadwy a materion dinasyddiaeth fyd-eang yn ein cwricwlwm. Rydym yn manteisio ar dechnoleg arloesol ac adnoddau dysgu eang eu cwmpas i ddarparu sylfaen i addysg Aberystwyth. Rydym yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau ar gyfer dysgu yn y gymuned, a phortffolio o gyrsiau rhan-amser ac undydd. Cydnabyddwn ein dyletswydd arbennig i hyrwyddo cysylltiadau cyfrwng-Cymraeg ac i hybu'r Gymraeg ac rydym yn chwarae rhan weithredol wrth annog myfyrwyr Cymraeg i ddilyn eu hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymchwil

Mae gennym hanes hir ac anrhydeddus o ymgymryd â gwaith ymchwil blaenllaw sydd o bwysigrwydd rhyngwladol, gan ymchwilio i'r prif heriau sy'n wynebu'r gymdeithas, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd, anghydraddoldeb byd-eang, ymchwil i'r gofod, economeg ryngwladol, deallusrwydd artiffisial a hunaniaethau diwylliannol. Gweithiwn i feithrin cyswllt â'r cyhoedd drwy ein hymchwil ac rydym yn ymfefydlu fel canolfan ar gyfer ymchwil gydweithredol â busnesau drwy ein campws newydd, y Campws Arloesi a Menter. Rydym yn gwerthfawrogi ymchwil ryngddisgyblaethol ac yn buddsoddi ynddi.

Ehangu cyfranogiad

Mae ein dull arloesol ni o ehangu'r drysau i addysg uwch yn cynnwys prosiectau i godi uchelgais ymhlith y rhai sy'n gadael ysgol, ac rydym yn cydweithio'n agos ag ysgolion a'r gymuned leol i wella sgiliau, yn enwedig yn y pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg). Rydym yn darparu ystod gynhwysfawr o Fwrsariaethau, Ysgoloriaethau Mynediad a Gwobrau, yn ogystal â darparu fframwaith o gefnogaeth ariannol i sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir yn gallu manteisio ar Addysg Uwch. Rydym hefyd yn darparu ystod o gymorth academiaidd a phersonol a dargedir at fyfyrwyr i'w helpu i aros mewn addysg uwch ac i hybu eu llwyddiant. Rydym yn gweithio gydag amryw gyrrff, gan gynnwys Stonewall, Buttle UK, Athena SWAN, yr Uned Her Cydraddoldeb, a Chomisiynydd y Gymraeg.

Cyrhaeddiad Rhyngwladol

Cymuned ryngwladol ffyniannus ydym, yn croesawu staff a myfyrwyr o dros 90 o wledydd o bob cwr o'r byd, ac yn cydweithio â sefydliadau, busnesau a chyrrff ledled y byd. Mae gennym gangen-gampws ym Mawrisiws, Aberystwyth Ltd, er mwyn estyn ein cwmpas byd-eang a chodi proffil rhyngwladol Addysg Uwch Gorllewin Cymru.

Cyswllt â'r Gymuned

Mae gennym gyswllt cryf â'n cymuned leol drwy raglenni diwylliannol bywiog ein Canolfan Gelfyddydau (sy'n denu 700,000 o ymwelwyr y flwyddyn), ein gwaith partneriaethol â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol, a thrwy waith gwirfoddol gan ein staff a'n myfyrwyr, a gwasanaethau a gynigir i fusnesau rhanbarthol. Rydym yn cefnogi'r ysbty lleol a rhaglenni iechyd cymunedol, ac yn darparu adnoddau chwaraeon a dosbarthiadau o safon uchel i'r gymuned leol.

CYFRIFOLDEBAU CYNGOR Y BRIFYSGOL

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i arddel yr arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol. Mae corff llywodraethol y sefydliad, sef y Cyngor, wedi'i fodloni bod y sefydliad wedi cydymffurfio drwy gydol y cyfnod â 'Chod Ymarfer Llywodraethu ac Egwyddorion Cyffredinol' Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (Mawrth 2009) ac, yn fwy diweddar, â Chod Llywodraethu Addysg Uwch (Rhagfyr 2014), yn ogystal â'r darpariaethau perthnasol a osodwyd yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol ym mis Medi 2014.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg addas, sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Brifysgol fel y gallai sicrhau bod datganiadau ariannol y grŵp yn cael eu paratoi yn unol â Siarter ac Ystatudau'r Brifysgol, a'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, ac â safonau cyfrifeg perthnasol eraill y grŵp.

Ar ben hynny, yn rhan o delerau ac amodau'r Memorandwm Aswiriad ac Atebolrwydd y cytunwyd arnynt rhwng Cyngor Prifysgol Aberystwyth a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'n ofynnol i Gyngor y Brifysgol, drwy law ei swyddog dynodedig, baratoi adroddiadau ariannol i'r grŵp am bob blwyddyn ariannol, sydd yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Brifysgol, o'r gweddill neu'r diffyg, ac o lif arian y grŵp am y flwyddyn honno.

Ar 1 Chwefror 2016, cymerodd yr Is-Ganghellor Dros Dro yr awenau fel y swyddog dynodedig hwnnw, a bydd ef yn parhau â'r cyfrifoldebau hynny yn rhinwedd y swydd honno nes bod rhywun yn cael ei benodi i swydd yr Is-Ganghellor a'r unigolyn hwnnw wedi cychwyn ar y swydd.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am gynnal ac am gywirdeb datganiadau ariannol y grŵp a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol.

Wrth baratoi datganiadau ariannol y grŵp, sicrhaodd y Cyngor fod

- polisiau cyfrifeg addas i'r grŵp yn cael eu dethol a'u gweithredu'n gyson;
- asesiadau ac amcangyfrifon rhesymol a synhwyrol yn cael eu gwneud;
- safonau cyfrifeg perthnasol yn cael eu dilyn, a bod unrhyw amrywiadau sylweddol yn y drefn yn cael eu datgelu a'u hegluro yn natganiadau ariannol y grŵp; a bod
- datganiadau ariannol y grŵp yn cael eu paratoi ar sail busnes parhaus, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Brifysgol yn parhau i weithredu.

Cymerodd y Cyngor gamau rhesymol i:

- sicrhau bod y cyllid a ddaw oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cael ei ddefnyddio dim ond i'r pwrpas a nodwyd wrth ei roi, ac yn unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd gyda'r Cyngor Cyllido, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill y bydd y Cyngor Cyllido yn eu gosod o bryd i'w gilydd;
- sicrhau bod rheoliadau trefniadau ariannol a rheolaeth addas mewn grym i ddiogelu cyllid cyhoeddus yn ogystal â chyllid a ddaw o ffynonellau eraill;
- warchod asedau'r Brifysgol gan atal a darganfod twyll ac arferion afreolaidd eraill; a
- sicrhau bod adnoddau a gwariant y Brifysgol yn cael eu rheoli'n ddarvoudus, yn effeithlon, ac yn effeithiol.

Dylid nodi y gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig yn ymwneud â pharatoi a dosbarthu datganiadau ariannol y grŵp fod yn wahanol i'r ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae'r Cyngor wedi'i fodloni bod gan y Brifysgol ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am y dyfodol gweladwy yn unol â'r hyn a ddatgenir o dan Sail Paratoi'r Cyfrifon ar dudalen 15; am y rheswm hwn mae'r sail barhaus yn dal i gael ei defnyddio wrth baratoi datganiadau ariannol y grŵp.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Aberystwyth i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2016, sydd ar dudalennau 15 i 50. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), gan gynnwys safon FRS102 *The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland*.

Gwneir yr adroddiad hwn i'r Cyngor yn unig, yn unol â Siarter a Statudau neu Ordinhadau'r sefydliad ac yn unal ag adrannau 144/145 Deddf Elusennau 2011 (neu ei ragflaenwyr) a rholiadau a wneir dan Adran 154 y Ddeddf. Mae ein gwaith archwilio wedi ei wneud er mwyn datgan i'r Cyngor y materion hynny y mae'n ofynnol arnom eu datgan iddo mewn adroddiad archwilio, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac arddel cyfrifoldeb i neb ond y Cyngor, y Brifysgol a'i Chyngor am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, a'r casgliadau yr ydym wedi eu gwneud.

Cyfrifoldebau Perthnasol y Cyngor a'r Archwilwyr

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y datganiad o Gyfrifoldebau Cyngor y Brifysgol ar dudalen 12, y Cyngor sydd yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Cawsom ein penod dan adran 144/145 Deddf Elusennau 2011 (neu ei ragflaenwyr) ac yn adrodd yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan adron 154 y Ddeddf. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio a rhoi ein barn ar y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn golygu ei bod hi'n ofynnol arnom gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael gafael ar ddigon o dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau a geir yn y datganiadau ariannol fel y gellir cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau materol, boed hynny'n deillio o dwyll neu amryfusedd. Mae hynny'n cynnwys asesiad o'r materion canlynol: a yw'r polisiâu cyfrifeg yn addas i amgylchiadau'r Grŵp a'r Brifysgol ac a ydynt wedi'u cymhwysu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon o sylwedd a wnaed gan y Cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Ar ben hynny, darllenwn yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y datganiadau ariannol er mwyn adnabod unrhyw anghysonderau o sylwedd â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd, ac i ddod o hyd i unrhyw wybodaeth sydd i'w gweld yn sylweddol anghywir ar sail y wybodaeth a gawsom, neu sydd yn sylweddol anghyson â'r wybodaeth a gawsom wrth inni gynnal yr archwiliad. Pe caem wybod am unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau ymddangosiadol, a'r rheini o sylwedd, ystyriem oblygiadau hynny i'n hadroddiad.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn ni mae'r datganiadau:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2016 ac o incwm a gwariant y Grŵp a'r Brifysgol, a'u henillion a'u cholledion, a'r newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn ac o lif arian y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â'r Arferion Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac â Datganiad 2015 ar Arferion Cymeradwy - Cyfrifeg mewn Addysg Bellach ac Uwch;
- yn bodloni gofynion cyfarwyddiadau Cyfrifon CCAUC i sefydliadau addysg uwch ar gyfer datganiadau ariannol 2015-16; ac
- wedi ei paratoi yn gywir yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH (parhad)

Barn ar faterion eraill a ragnodwyd yng Nghod Ymarfer Archwilio CCAUC (yn weithredol ar 1 Awst 2014) a gyhoeddwyd yn ôl Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992

Yn ein barn ni, ym mhob agwedd o sylwedd:

- mae'r cyllid a dderbyniwyd o ba bynnag ffynhonnell gan y Grŵp a'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'i ddefnyddio yn briodol at y dibenion hynny a'i reoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- mae incwm wedi'i ddefnyddio yn unol â Statudau'r Brifysgol;
- mae'r cyllid a ddarparwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi'i ddefnyddio yn unol â'r Memorandwm ar Aswiriant ac Atebolwydd ac unrhyw delerau ac amodau cysylltiedig eraill; ac
- mae gofynion llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol a roddwyd yng nghyfarwyddiadau Cyfrifon CCAUC i sefydliadau addysg uwch ar gyfer datganiadau ariannol 2014-15 wedi'u bodloni.

Materion y mae'n ofynnoli ni adrodd arnynt drwy eithriad

Does gennym ddim iw nodi o ran y materion calynol y mae Deddf Elusennau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i adrodd i chi, os, yn ein barn ni

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddind blynyddol yn anghyson meun unrhyw fodd mateol gyda'r datganiadau ariannol; neu;
- nid yw'r Brifysgol wedi cadw cofnodion cyfrifyddol digonol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddol; neu
- nid ydyn wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadan sydd angen arnom ar gyfer ein harchuiliad.

Emma Holiday
Ar gyfer ac ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol
Cyfrifwyr Siartredig
3 Assembly Square
Britannia Quay
Caerdydd
CF10 4AX

Mae KPMG yn gynnwys i wethredu fel archwilydd o ran adran 1212 Deddf Cwmniau 2006.

DATGANIAD AM Y PRIF BOLISIAU CYFRIFEG

1. Sail Paratoi'r Cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol ac yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP): Cyfrifon i Addysg Bellach ac Uwch 2015; y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan CCAUC; a'r Safonau Adrodd Ariannol (FRS102).

Sefydliad er y budd cyhoeddus yw'r Brifysgol ac felly mae wedi cymhwyso gofyniad y budd cyhoeddus yn FRS102. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â chonfensiwn y gost wreiddiol (a addaswyd ar ôl ailbriso'r asedau sefydlog).

Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno Datganiad Llif Arian Parod y grŵp dim ond yn unol â'r hyn a ganiateir gan yr eithriad datgan sydd i'w gael yn FRS102.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes parhau.

Busnes Parhaus

Er bod Grŵp Cyfun Prifysgol Aberystwyth wedi cofnodi diffyg (cyn enillion/colledion a'i rhan o weddill-diffyg mentrau ar y cyd), sef £5.1m yn 2015-16 roedd ganddi fewnif net o arian parod, sef £2.1m. Ar ben hynny mae gan y Grŵp £18.4m o asedau cyfredol net ac £149.7m o asedau net, y mae £23.7m ohonynt yn gronfeydd digyfngiad. O fewn yr asedau cyfredol net y mae arian parod a buddsoddiadau byrdymor, sef £40.2m (mae gwerth £5.2m ohonynt yn gyfyngedig) sydd ar gael i'w defnyddio gan y Grŵp i dalu am ei rwymedigaethau parhaol ac i gefnogi Rhaglen Cyfalaf y Grŵp. Mae rhagolygon ariannol, gan gynnwys rhagamcanion o lif arian parod, wedi'u paratoi i'r Grŵp sy'n cwmpasu'r tymor byr a'r tymor canolig. Mae'r rhagolygon yn dangos, er y rhagwelir diffyg pellach am 2016-17 (pwynt adennill costau 2017-18), wrth i'r Grŵp weithio drwy ei gynlluniau adfer, bydd ganddo ddigon o weddillion arian parod a chronfeydd wrth gefn i dalu am rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

O'r herwydd, ar sail eu hasesiad o sefyllfa ariannol y Grŵp a'r rhagamcan o'i gylch gweithredu, mae hi'n rhesymol i'r Cyngor ddisgwyl y bydd gan y Grŵp adnoddau digonol i allu parhau â'i gylch gweithredu am y dyfodol hyd y gellir rhagweld; felly maent yn dal i arddel y sail busnes parhaus wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

2. Sail Cyfuno'r Cyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol cyfun yn cynnwys y Brifysgol, Campws Arloesi a Menter Aberystwyth, ac Aberystwyth Limited (Prifysgol Aberystwyth Mawrisiws) am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2016. Mae canlyniadau unrhyw is-gwmnïau a gafwyd neu a waredwyd yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad cyfun o incwm a gwariant o'r dyddiad pan y'u cafwyd neu hyd at y dyddiad pan y'u gwaredwyd. Mae trafodion ariannol o fewn y grŵp yn cael eu dileu wrth gyfuno.

Mae is-gwmnïau eraill (Aber Trading Cyf ac Aber Bangor Consultancy Cyf) heb gael eu cyfuno ar y sail nad ydynt o sylwedd.

Nid yw'r cyfrifon cyfun yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr gan nad yw'r Brifysgol yn rheoli ei benderfyniadau polisiau nac yn dwyn y dylanwad pennaf arnynt. Cyfrifir am gwmnïau cysylltiedig ac am fentrau ar y cyd drwy'r dull ecwiti.

3. Cofnodi incwm

Mae'r incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau yn cael ei gofnodi ar y Datganiad Cyfun o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ôl i'r nwyddau neu'r gwasanaethau gael eu cyflenwi i'r cwsmer allanol neu ar ôl i delerau'r contract gael eu cyflawni.

Mae incwm o ffioedd dysgu yn cael ei ddatgan gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt ac yn cael ei gofnodi ar y Datganiad Cyfun o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y cyfnod pan fo'r myfyrwyr yn astudio. Os yw maint y ffi dysgu yn cael ei leihau drwy gynnig gostyngiad am dalu'n brydlon neu drwy ddisgownt i'r holl fyfyrwyr, mae'r incwm derbyniadwy yn cael ei ddangos net o'r disgownt. Mae bwrsariaethau ac ysgoloriaethau nad ydynt yn gyffredinol yn cael eu cyfrif gros o fewn gwariant a heb gael eu tynnu o incwm.

Mae'r cronfeydd sy'n cael eu derbyn a'u dosbarthu gan y Brifysgol fel asiant sy'n talu ar ran corff cyllido yn cael eu heithrio o incwm a gwariant y Brifysgol os: nad yw'r Brifysgol yn agored ond i'r mymryn lleiaf o risg; neu os nad yw'n cael ond y mymryn lleiaf o fudd economaidd mewn cysylltiad â'r trafodyn ariannol.

DATGANIAD AM Y PRIF BOLISIŌAU CYFRIFEG (parhad)

Cyllid Grantiau

Mae grantiau refeniw'r Llywodraeth, gan gynnwys grantiau bloc a grantiau ymchwil y cyngorau cyllid yn cael eu cofnodi mewn incwm dros y cyfnodau pan fydd y Brifysgol yn cofnodi'r costau cysylltiedig y rhoddwyd y grant amdanynt. Os yw rhan o grant y llywodraeth wedi'i gohirio, fe'i cofnodir fel incwm gohiriedig o fewn y credydwy'r a'i dyrannu rhwng y credydwy'r sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn a'r credydwy'r sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn fel y bo'n briodol.

Mae grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) a ddaw o ffynonellau anllywodraethol yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r incwm hwnnw, a phan fo'r amodau sy'n ymwneud â pherfformiad wedi'u bodloni. Mae'r incwm a gafwyd cyn y bodlonir yr amodau sy'n ymwneud â pherfformiad yn cael ei gofnodi fel incwm gohiriedig ar y fantolen, ac yn cael ei ryddhau i incwm wrth i'r amodau gael eu bodloni.

Grantiau cyfalaf

Cofnodir grantiau cyfalaf y llywodraeth yn yr incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased. Mae grantiau cyfalaf eraill yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r cronfeydd, yn amodol ar yr angen i fodloni unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

Rhoddion a gwaddolion

Mae rhoddion a gwaddolion ac arnynt gyfyngiadau a osodwyd gan y rhoddwr yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r cronfeydd. Cedwir yr incwm o fewn y gronfa sydd â chyfyngiadau nes y bydd yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r cyfyngiadau penodol, ac ar yr adeg honno fe ryddheir yr incwm i'r arian cyffredinol wrth gefn drwy drosglwyddiad arian wrth gefn.

Mae rhoddion heb gyfyngiadau arnynt yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r cronfeydd.

Cofnodir incwm o fuddsoddiadau ac arbriso gwaddolion yn yr incwm i'r flwyddyn pan fydd yn codi, naill ai fel incwm cyfyngedig neu ddigyfyngiad. Mae'r dosbarthiad yn dibynnu ar y telerau a'r cyfyngiadau a osodir ar y gronfa waddol unigol.

Pedwar prif fath o roddion a gwaddolion a gofnodir yn y cronfeydd wrth gefn:

1. Rhoddion cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod rhaid defnyddio'r rhodd at ryw fwriad penodol.
2. Gwaddolion parhaol digyfyngiad - mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu llif incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
3. Gwaddolion treuliadwy cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol ac eithrio prynu neu adeiladu asedau cyffyrddadwy sefydlog, ac mae gan y Brifysgol yr hawl i ddefnyddio'r cyfalaf.
4. Gwaddolion parhaol digyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu llif incwm i'w defnyddio at ryw fwriad penodol.

4. Cyfrifo buddiannau ymddeol

Dyma'r tri phrif gynllun pensiwn yn y Brifysgol:

- Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), sef cynllun Aml-gyflogwr â Buddiannau Diffiniedig
- Cynllun Pensiwn Prifysgol Aberystwyth (CPPA), sef Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig; a
- Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA), sef Cynllun Buddiannau Diffiniedig sydd wedi'i gau rhag cyfraniadau gan weithwyr yn y dyfodol.

DATGANIAD AM Y PRIF BOLISÏAU CYFRIFEG (parhad)

Cynllun Aml-gyflogwr â Buddiannau Diffiniedig

Mae cynlluniau Aml-gyflogwr â Buddiannau Diffiniedig yn cael eu prisio bob yn dair blynedd gan actiwariadaid annibynnol a chanddynt gymwysterau proffesiynol. Os nad yw'r Brifysgol yn gallu nodi ei chyfran hi o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun ar sail gyson a rhesymol oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun, cyfrifir am y cynllun fel cynllun buddiannau ymddeol â chyfraniadau diffiniedig. Cofnodir rhwymedigaeth o fewn y darpariaethau am unrhyw ymrwymiad contractiol i ariannu unrhyw ddiffygion o'r gorffennol o fewn y cynllun.

Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig

Mae'r Brifysgol yn talu cyfraniadau penodedig i endid ar wahân ac ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol, na thrwy ddehongliad, arni i dalu mwy. Mae rhwymedigaethau am gyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y datganiad o incwm yn y cyfnodau pan fo'r staff yn cyflawni eu dyletswyddau.

Cynllun Buddiannau Diffiniedig

Mewn cynlluniau buddiannau diffiniedig mae gan y Brifysgol rwymedigaeth i ddarparu'r buddiannau y cytunwyd arnynt i aelodau presennol o staff ac i gyn-weithwyr. Y Brifysgol sy'n ysgwyddo'r risg actiwaraidd (sef bod y buddiannau yn costio'n fwy neu'n llai na'r disgwyl) a'r risg fuddsoddol (sef bod yr adenillion ar yr asedau a neilltuir i ariannu'r buddiannau yn wahanol i'r disgwyl).

Mae'r Brifysgol yn cydnabod rhwymedigaeth am ei hymrwymadau yn ôl cynlluniau buddiannau diffiniedig net o asedau'r cynlluniau. Mae'r rhwymedigaeth hon am fuddiannau diffiniedig net yn cael ei mesur fel amcangyfrif o'r maint o fuddiannau y mae'r staff wedi'u hennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol, wedi'i ostwng i bennu'r gwerth presennol, wedi tynnu gwerth teg asedau'r cynllun (yn ôl prisiau cynnig). Gwneir y gwaeth cyfrifo gan actwari cymwys gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu credyd unedau. Os ased net yw canlyniad y gwaith cyfrifo hwnnw, cyfyngir ar gofnod yr ased hwnnw i'r graddau y mae'r Brifysgol yn gallu adfer y gweddill naill ai drwy leihau cyfraniadau yn y dyfodol, neu drwy ad-daliadau o'r cynllun. Mae cynlluniau buddiannau diffiniedig yn cael eu prisio bob yn dair blynedd gan actiwariadaid annibynnol sydd â chymwysterau proffesiynol.

5. Buddiannau cyflogaeth

Mae buddiannau cyflogaeth yn y tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau y telir amdanynt, yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y flwyddyn pan fydd yr aelodau o staff dan sylw yn cyflawni gwasanaeth i'r Brifysgol. Cronnir unrhyw fuddiannau nas defnyddiwyd ac mae gwerth y rhwymedigaeth yn cael ei gofnodi fel y swm ychwanegol y mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i'r hawliau nas defnyddiwyd.

6. Prydlesau cyllid

Diffinnir prydlesau fel prydlesau cyllid lle mae'r Brifysgol yn arddel sylwedd yr holl risgiau a'r buddiannau sy'n cyd-fynd â pherchnogaeth yr ased a brydlesir. Mae asedau ar brydles a gafwyd drwy brydlesau cyllid a'r rhwymedigaethau prydles cyfatebol yn cael eu cofnodi ar y dechrau am swm sy'n cyfateb naill ai i'w gwerth teg neu werth presennol y taliadau prydles isafsymol, p'un bynnag fo'r isaf, ar ddechrau'r brydles.

Mae'r taliadau prydles isafsymol yn cael eu rhannu rhwng y costau cyllid a lleihau'r rhwymedigaeth sy'n weddill. Dyrennir y costau cyllid i bob cyfnod yn ystod tymor y brydles er mwyn cynhyrchu cyfradd llog gyfnodol gyson ar weddill y rhwymedigaeth.

DATGANIAD AM Y PRIF BOLISI'AU CYFRIFEG (parhad)

7. Prydlesau gweithredu

Cofnodir costau sy'n gysylltiedig â phrydlesau gweithredu ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Rhennir unrhyw breimymau neu gymhelliannau prydlesau dros dymor isafsymol y brydles.

Mae incwm a gafwyd ynghylch prydlesau gweithredu a roddir yn cael eu cofnodi ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Rhennir unrhyw breimymau neu gymhelliannau prydlesau dros dymor isafsymol y brydles.

8. Arian tramor

Y bunt (sterling) yw arian cyfredol gweithredol Grŵp Prifysgol Aberystwyth.

Trosir trafodion a gynhaliwyd mewn gwahanol fathau o arian tramor i sterling yn ôl y gyfradd gyfnewid arian tramor sy'n weithredol ar ddyddiad y trafodyn. Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn ariannau tramor ar ddyddiad y fantolen yn cael eu trosi i'r arian cyfredol gweithredol yn ôl y gyfradd gyfnewid sy'n weithredol ar y dyddiad hwnnw. Cofnodir gwahaniaethau cyfnewid arian tramor sy'n codi wrth droi i'r arian cyfredol yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr.

Mae asedau a rhwymedigaethau gweithgareddau a gynhelir dramor yn cael eu trosi i sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sy'n weithredol ar ddyddiad y fantolen. Mae referniw a threuliau gweithgareddau a gynhelir dramor yn cael eu trosi yn ôl cyfradd gyfartaleddol i'r flwyddyn lle mae'r gyfradd honno yn cyfateb yn fras i'r cyfraddau cyfnewid arian tramor sy'n weithredol ar ddyddiadau'r trafodion. Mae'r gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi o'r trosi hwnnw ar weithgareddau tramor yn cael eu cofnodi fel eitem yn yr Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi pan fo eitem ariannol sydd i'w derbyn o weithgaredd tramor neu sydd i'w thalu i weithgaredd tramor, a honno'n eitem na ddisgwylir iddi gael ei thalu am gyfnod y gellir ei ragweld, yn cael eu hystyried yn rhan o fuddsoddiad net mewn gweithgaredd tramor ac fe'u cofnodir yn uniongyrchol yn yr ecwiti.

9. Asedau sefydlog

Datgenir asedau sefydlog yn ôl y gost dybiedig ar ôl tynnu dibrisiant cronedig a cholledion o ddiffygion cronedig. Mae eitemau penodol o asedau sefydlog a ailbrisiwyd i werth teg ar ddyddiad y trosglwyddo i SORP Addysg Uwch 2015, neu cyn y dyddiad hwnnw, yn cael eu mesur ar sail y gost dybiedig, sef y maint a ailbrisiwyd ar ddyddiad yr ailbrisiu hwnnw.

Os bydd gan rannau o ased sefydlog wahanol oesau defnyddiol, cyfrifir amdanynt fel eitemau ar wahân o asedau sefydlog.

Adolygir y dulliau dibrisio, yr oesau defnyddiol a'r gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad paratoi pob Mantolen.

Tir ac Adeiladau

Ailbrisiwyd eiddo rhydd-ddaliad y Brifysgol, ac eithrio'r Llety a'r adeiladau eraill sy'n gysylltiedig â masnachu, ar 31 Gorffennaf 2014 ar sail gwerth adnewyddu ar ôl dibrisiant. Mae'r asedau hyn yn cael eu cario ar brisiant 2014. Mae ychwanegiadau ar ôl hynny wedi'u dal yn ôl y gost.

Mae adeiladau rhydd-ddaliad yn cael eu dibrisio dros gyfnod eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig, yn unol â'u rhannau cyfansoddol, sef:

Tymor hir e.e. sylfeini ac adeiladwaith	40 i 60 o flynyddoedd
Tymor canolig e.e. gwasanaethau	10 i 30 o flynyddoedd
Tymor byr e.e. gosodiadau mewnol	5 i 10 o flynyddoedd

Mae costau sy'n deillio o dir ac adeiladau, ar ôl eu prynu neu eu hadeiladu yn y lle cyntaf, yn cael eu cyfalafu i'r graddau y disgwylir iddynt gynyddu'r buddiannau disgwyliedig i'r Brifysgol yn y dyfodol. Nid yw asedau yn cael eu dibrisio yn ystod y cyfnod adeiladu.

DATGANIAD AM Y PRIF BOLISIŶAU CYFRIFEG (parhad)

Ni ddibrisir tir rhydd-ddaliad oherwydd y tybir bod ganddo oes ddefnyddiol amhenodol. Mae tir ar brydles yn cael ei ddibrisio dros oes y brydles. Cafwyd llety newydd y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr, Fferm Penglais, drwy ddefnyddio cyllid gan L&G a Balfour Beatty. Cofnodwyd yr adeilad yn ôl y gost. Cofnodwyd y cyllid a ddarparwyd gan L&G a Balfour Beatty o dan gredydwyr hirdymor ar sail cyfradd llog ymhlwg y trefniadau.

Offer

Y mae gwariant ar offer sy'n costio llai na £10,000 fesul eitem unigol yn cael ei ddileu ym flwyddyn eu prynu. Mae offer eraill yn cael eu cyfalafu.

Cofnodwyd offer a gyfalafwyd yn ôl eu cost a'u dibrisio, drwy'r dull llinell syth, dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig, sef pum mlynedd, heblaw am offer a gafwyd ar gyfer prosiectau ymchwil penodol sy'n cael eu dibrisio dros gyfnod y prosiect (sef 3 blynedd fel arfer).

Meddalwedd

Mae costau datblygu meddalwedd sy'n uniongyrchol gysylltiedig â galluogi sistem gyfrifiadurol neu beirianwaith a weithredir yn gyfrifiadurol i weithio i'w defnyddio o fewn y busnes yn cael eu cofnodi fel asedau sefydlog cyffwrddadwy.

Asedau Treftadaeth

Paeintadau, gweithiau celfyddydol a darnau o waith seramig ym meddiant y Brifysgol yw asedau treftadaeth. Maent yn cael aeu dal a'u cynnal oherwydd eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant yn bennaf. Mae'r eitemau hynny y pennwyd eu gwerth dros £10,000 wedi'u cyfalafu a'u cydnabod yn ôl y gost neu eu gwerth caffael, lle y bo modd cael amcan rhesymol o'r gost neu'r gwerth. Nid yw asedau treftadaeth yn cael eu dibrisio gan fod eu hoes economaidd hir a'u gwerth gweddilliol uchel yn golygu na fyddai sylwedd i unrhyw ddibrisio o'r fath.

Mae unrhyw gostau sy'n codi o waith adfer neu gadwriaethol i'r asedau hyn yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Cyfun o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fo'r costau hynny'n codi.

10. Eiddo buddsoddi

Ystyr eiddo buddsoddi yw tir ac adeiladau a ddelir er mwyn cael incwm o'u llogi neu er mwy arbriso cyfalaf yn hytrach nag i'w defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau.

Mesurir eiddo buddsoddi yn ôl y gost yn y lle cyntaf ac wedyn yn ôl eu gwerth teg gyda newidiadau yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr. Nid ydynt yn cael eu dibrisio ond maent yn cael eu hailbriso neu eu hadolygu yn unol ag amodau'r farchnad ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

11. Buddsoddiadau eraill

Pennwyd gwerth buddsoddiadau a restrir yn ôl eu gwerth teg yn y farchnad gyda'r enillion a'r colledion yn cael eu cofnodi yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Cofnodir buddsoddiadau asedau anghyfredol ar y Fantolen yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio ar ôl tynnu diffygion.

Mae buddsoddiadau mewn endidau a gyd-reolir, mentrau cysylltiedig ac is-gwmnïau yn cael eu cario yn ôl y gost ar ôl tynnu diffygion yng nghyfrifon y Brifysgol.

Cofnodir buddsoddiadau asedau cyfredol yn ôl eu gwerth teg, gyda newidiadau yn cael eu dangos yn y Gweddill neu'r Diffyg.

DATGANIAD AM Y PRIF BOLISIŪAU CYFRIFEG (parhad)

12. Stoc

Nodir stoc yn ôl y gost, neu'r pris gwerthu net, pa un bynnag fo'r isaf.

13. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuron i'w had-dalu ar gais, a gorddrafftiau. Cyfrifir adneuron fel rhai i'w had-dalu ar gais os ydynt ar gael yn ymarferol ymhen 24 awr heb gosb ariannol.

Mae symiau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau hylifol iawn, byrdymor y gellid eu trosglwyddo i symiau penodol o arian parod heb risg sylweddol o newid eu gwerth.

14. Darpariaethau, rhwymedigaethau amodol ac asedau amodol

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol pan fo:

- (i) gan y Brifysgol ymrwymiad cyfredol (yn gyfreithiol neu'n ddehongliadol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;
- (ii) mae'n debyg y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd er mwyn bodloni'r ymrwymiad hwnnw; ac
- (iii) fe ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy am swm yr ymrwymiad.

Mae'r maint a gofnodir yn ddarpariaeth yn cael ei bennu drwy dynnu'r llif disgwylidig o arian parod yn y dyfodol, ar gyfradd cyn treth sy'n adlewyrchu'r risgiau sy'n berthnasol i'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaethau amodol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n gosod ymrwymiad posib ar y Brifysgol ac ni fydd modd ei gadarnhau nes y bo digwyddiadau posib yn y dyfodol, y tu allan i reolaeth y Brifysgol, yn digwydd ai peidio. Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle y byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai ei bod hi'n annhebyg y bydd angen i adnoddau fynd allan, neu ei bod hi'n amhosib mesur maint yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Mae ased amodol yn codi lle mae digwyddiad yn golygu ei bod hi'n bosib y bydd gan y Brifysgol ased ond ni fydd modd ei gadarnhau nes y bo digwyddiadau posib yn y dyfodol, y tu allan i reolaeth y Brifysgol, yn digwydd ai peidio.

Nid yw asedau a rhwymedigaethau amodol yn cael eu cofnodi ar y Fantolen, ond fe'u datgenir yn y nodiadau.

15. Cyfrifo am Weithgareddau ar y Cyd, Asedau a Gydreolir, a Gweithgareddau a Gydreolir

Mae'r Brifysgol yn cynnwys ei rhan hi o fentrau ar y cyd drwy ddefnyddio'r dull ecwiti.

16. Treth

Mae'r Brifysgol yn elusen eithriedig o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Elusennau 2011. Felly mae'n elusen yn unol â'r ystyr ym Mharagraff 1 o atodlen 6 o Ddeddf Cyllid 2010 ac felly mae gan y Brifysgol botensial i gael ei heithrio rhag talu treth ar incwm neu enillion cyfalaf a geir o fewn y categorïau sy'n cael eu cwmpasu gan adrannau 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaethol 2010 neu adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Taladwy 1992 i'r graddau bod yr incwm neu'r enillion dan sylw wedi eu defnyddio at ddibenion cwbl elusennol.

Mae pob is-gwmni yn talu Treth Gorfforaethol yn union fel unrhyw gorff masnachol arall.

Byddai treth ohiriedig yn cael ei darparu'n llawn ar wahaniaethau amseru sy'n golygu bod rhwymedigaeth ar ddyddiad y fantolen i dalu mwy o dreth, neu hawl i dalu llai o dreth, ar ddyddiad yn y dyfodol.

Mae prif gylchoedd gweithredu'r Brifysgol yn cael eu hesgusodi rhag Treth ar Werth (TAW), ond mae rhai cyflenwadau a gwasanaethau ategol yn talu TAW ar wahanol gyfraddau. Mae Gwariant yn cynnwys Treth ar Werth anadferadwy a godwyd gan gyflenwyr i'r Brifysgol.

DATGANIAD AM Y PRIF BOLISIŪAU CYFRIFEG (parhad)

17. Arian wrth gefn

Mae arian wrth gefn wedi'i bennu naill ai'n gyfyngedig neu'n ddigifyngiad. Mae gwaddolion cyfyngedig wrth gefn yn cynnwys gweddillion a ddelir, drwy eu gwaddoli i'r Brifysgol, yn gronfeydd sydd wedi'u cyfyngu yn barhaol ac y mae'n rhaid i'r Brifysgol eu dal am byth.

Mae cronfeydd cyfyngedig eraill wrth gefn yn cynnwys gweddillion lle y mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol iddynt ac felly dim ond at ddibenion cyfyngedig y mae'r Brifysgol yn cael defnyddio'r cronfeydd hynny.

18. Symud i Ddatganiad o Arferion Cymeradwy 2015 (SORP)

Mae'r Brifysgol yn paratoi ei datganiadau ariannol yn unol ag FRS102 am y tro cyntaf yn 2015–16 ac yn sgil hynny mae wedi rhoi'r gofynion mabwysiadu am y tro cyntaf ar waith. Ceir esboniad yn nodyn 29 ar sut mae'r symud i FRS102 wedi effeithio ar y sefyllfa ariannol, y perfformiad ariannol a'r llif arian yn y canlyniadau cyfun a chanlyniadau'r Brifysgol, fel yr adroddir arnynt.

Mae FRS102 wedi ei gwneud hi'n ofynnol i'r Brifysgol newid nifer o'i pholisïau cyfrifo o ran y meysydd canlynol yn 2015–16.

Mae effaith y newidiadau wedi'i chynnwys yn nodyn 29.

	Cyn defnyddio FRS102	Wedi defnyddio FRS102
Tir ac Adeiladau	Roedd eiddo rhydd-ddaliad a lesddaliad yn cael ei ailbriso ar sail gwerth amnewid wedi dibrisiant ar 31 Gorffennaf 1994.	Roedd eiddo rhydd-ddaliad a lesddaliad yn cael ei ailbriso ar sail gwerth amnewid wedi dibrisiant ar 31 Gorffennaf 2014; byddant yn cael eu dal ar y gost dybiedig newydd hon a'u dibrisio.
Buddiannau tymor byr i staff	Nid oedd y Brifysgol yn cydnabod rhwymedigaeth am unrhyw fuddiannau heb eu defnyddio gan y staff, megis gwyliau blynyddol nas defnyddiwyd.	Mae'r Brifysgol bellach yn cydnabod rhwymedigaeth am unrhyw wyliau blynyddol nas defnyddiwyd gan yr aelod o'r staff.
Grantiau cyfalaf	Mae grantiau cyfalaf y Llywodraeth yn cael eu cydnabod ar ffurf incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased. Mae Grantiau Cyfalaf Gohiriedig yn cael eu cydnabod o fewn Arian Wrth Gefn y Brifysgol.	Mae grantiau cyfalaf y Llywodraeth yn cael eu cydnabod ar ffurf incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased. Mae grantiau cyfalaf gohiriedig yn cael eu cydnabod fel credydwr o fewn asedau net.
Grantiau nad ydynt yn dod o'r Llywodraeth	Mae grantiau nad ydynt yn dod o'r Llywodraeth yn cael eu cydnabod wrth iddynt gael eu gwario; mae unrhyw elfennau nad ydynt wedi'u gwario yn cael eu trin fel incwm gohiriedig.	Mae grantiau nad ydynt yn dod o'r Llywodraeth yn cael eu cydnabod ar ffurf incwm pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r arian yn amodol ar unrhyw feini prawf perfformiad.
Pensiynau	Nid oedd y Brifysgol yn cydnabod rhwymedigaeth ynghylch diffygion y gorffennol o fewn cynllun aml-gyflogwr yr USS.	Mae'r Brifysgol bellach yn cydnabod rhwymedigaeth am unrhyw ymrwymadau contractiol y cytunwyd arnynt i ariannu diffygion y gorffennol o fewn cynllun aml-gyflogwr yr USS.
Gwaddolion	Adroddid ynghylch cynnydd neu gwmp mewn gwerth yn sgil ailbriso asedau gwaddol yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig. Roedd asedau gwaddol yn gategori ar wahân ac roedd unrhyw fuddsoddiadau neu arian a oedd yn cael eu dal mewn cysylltiad â gwaddolion yn cael eu cydnabod dan asedau gwaddol ar y Fantolen.	Adroddir ar gynnydd neu gwmp mewn gwerth yn sgil ailbriso asedau gwaddol yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr. Nid yw asedau gwaddol yn gategori ar wahân ar y fantolen ac mae unrhyw asedau a ddelir yn cael eu pennu yng nghategoriâu buddsoddiadau, adneon tymor byr neu arian yn y banc.

DATGANIAD CYFUN O INCWM CYNHWYSFAWR am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2016

	Nodyn	2016		2015	
		Cyfun £000	Prifysgol £000	Cyfun £000	Prifysgol £000
Incwm					
Ffioedd dysgu a chontractau addysgol	1	60,445	60,445	64,685	64,685
Grantiau cyrff cyllido	2	12,491	12,491	13,534	13,534
Grantiau a chontractau ymchwil	3	21,712	21,712	21,609	21,609
Incwm arall	4	26,848	26,848	29,193	29,193
Incwm o fuddsoddiadau	5	956	956	995	995
Cyfanswm yr incwm cyn gwaddolion a rhoddion		122,452	122,452	130,016	130,016
Rhoddion a gwaddolion	6	724	724	312	312
Cyfanswm yr Incwm		<u>123,176</u>	<u>123,176</u>	<u>130,328</u>	<u>130,328</u>
Gwariant					
Costau Staff	7/9	70,050	70,050	73,398	73,398
Costau ailstrwythuro sylfaenol	7/9	723	723	2,488	2,488
Gwariant gweithredu arall	9	42,386	42,386	44,735	44,735
Dibrisiant	9/10	11,217	11,217	10,472	10,472
Llog a chostau cyllid eraill	8/9	3,906	3,906	3,328	3,328
Cyfanswm Gwariant	9	<u>128,282</u>	<u>128,282</u>	<u>134,421</u>	<u>134,421</u>
Diffyg cyn enillion/colledion eraill a chyfran o ddiffyg gweithredol o fentrau ar y cyd a mentrau cysylltiedig.		(5,106)	(5,106)	(4,093)	(4,093)
Cyfran o ddiffyg gweithredol mentrau ar y cyd		-	-	-	-
Colledion ar ôl gwerthu asedau sefydlog		(115)	(115)	(168)	(168)
Colledion ar ôl diffygion asedau sefydlog		-	-	(1,253)	(1,253)
Enillion ar fuddsoddiadau	21/10	2,712	2,712	1,357	1,357
Diffyg am y flwyddyn		<u>(2,509)</u>	<u>(2,509)</u>	<u>(4,157)</u>	<u>(4,157)</u>
(Colledion)/enillion actiwaraidd o ran y cynlluniau pensiwn	26	(10,455)	(10,455)	4,063	4,063
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		<u>(12,964)</u>	<u>(12,964)</u>	<u>(94)</u>	<u>(94)</u>
Cynrychiolir gan:					
Incwm cynhwysfawr gwaddolion am y flwyddyn		3,206	3,206	1,361	1,361
Incwm (gwariant) cynhwysfawr cyfyngedig am y flwyddyn		(23)	(23)	203	203
Incwm cynhwysfawr digyfyngiad am y flwyddyn		(16,147)	(16,147)	(1,658)	(1,658)
		<u>(12,964)</u>	<u>(12,964)</u>	<u>(94)</u>	<u>(94)</u>
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn a briodolir i					
Cyfran anreolaethol		-	-	-	-
Y Brifysgol		<u>(12,964)</u>	<u>(12,964)</u>	<u>(94)</u>	<u>(94)</u>

MANTOLEN GYFUN A MANTOLEN Y BRIFYSGOL ar 31 Gorffennaf 2016

	Nodyn	2016		2015	
		Cyfun £000	Prifysgol £000	Cyfun £000	Prifysgol £000
Asedau anghyfredol					
Asedau Sefydlog	10	237,686	236,277	243,058	242,418
Asedau Treftadaeth	10	1,347	1,347	1,347	1,347
Buddsoddiadau	17	33,965	33,965	31,911	31,911
Buddsoddiadau mewn mentrau ar y cyd		-	-	-	-
		<u>272,998</u>	<u>271,589</u>	<u>276,316</u>	<u>275,676</u>
Asedau cyfredol					
Stoc	14	1,509	1,509	2,030	2,030
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	15	8,985	9,749	12,276	12,034
Buddsoddiadau	16	2,176	2,176	1,542	1,542
Arian parod a chyferwerth ag arian parod	23	40,209	39,285	38,124	37,673
		<u>52,879</u>	<u>52,719</u>	<u>53,972</u>	<u>53,279</u>
Llai: Credydwy: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	18	34,441	34,281	34,760	34,756
Asedau/(Rhwymedigaethau) cyfredol net		<u>18,438</u>	<u>18,438</u>	<u>19,212</u>	<u>18,523</u>
Cyfanswm asedau wedi tynnu rhwymedigaethau cyfredol		<u>291,436</u>	<u>290,027</u>	<u>295,528</u>	<u>294,199</u>
Credydwy: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn	19	101,628	100,219	104,131	102,802
Darpariaethau					
Darpariaethau pensiynau	20	36,980	36,980	26,270	26,270
Darpariaethau eraill	20	3,080	3,080	2,415	2,415
Cyfanswm asedau net		<u>149,748</u>	<u>149,748</u>	<u>162,712</u>	<u>162,712</u>
Arian Cyfyngedig wrth Gefn					
Arian wrth gefn o incwm a gwariant – arian wrth gefn o waddoliadau	21	48,359	48,359	45,153	45,153
Arian wrth gefn o incwm a gwariant - arian cyfyngedig wrth gefn	22	5,165	5,165	5,188	5,188
Arian Difyfyngiad wrth Gefn					
Arian wrth gefn o incwm a gwariant - digyfyngiad		23,756	23,756	37,078	37,078
Arian wrth gefn o ailbriso		72,468	72,468	75,293	75,293
Cyfanswm arian wrth gefn		<u>149,748</u>	<u>149,748</u>	<u>162,712</u>	<u>162,712</u>

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor y Brifysgol ar 29 Tachwedd 2016 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

**DATGANIAD CYFUN A DATGANIAD Y BRIFYSGOL
O NEWIDIADAU YN YR ARIAN WRTH GEFN
am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2016**

Cyfun	Cyfrif Incwm a Gwariant			Arian wrth gefn o ailbriso	Cyfanswm yn cynnwys Cyfran Anreolaethol
	Gwaddolion £000	Cyfyngedig £000	Digyfyngiad £000		
Gweddill ar 1 Awst 2014	43,792	4,985	35,911	78,118	162,806
Gwarged/(diffyg) o incwm cynhwysfawr	1,361	203	(1,658)	-	(94)
Trosglwyddiadau rhwng arian wrth gefn o ailbriso ac arian wrth gefn o incwm a gwariant	-	-	2,825	(2,825)	-
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	1,361	203	1,167	(2,825)	(94)
Gweddill ar 1 Awst 201	45,153	5,188	37,078	75,293	162,712
Gwarged/(diffyg) o incwm cynhwysfawr	3,206	(23)	(16,147)	-	(12,964)
Trosglwyddiadau rhwng arian wrth gefn o ailbriso ac arian wrth gefn o incwm a gwariant	-	-	2,825	(2,825)	-
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	3,206	(23)	(13,322)	(2,825)	(12,964)
Gweddill ar 31 Gorffennaf 2016	48,359	5,165	23,756	72,468	149,748

Y Brifysgol	Cyfrif Incwm a Gwariant			Arian wrth gefn o ailbriso	Cyfanswm yn cynnwys Cyfran Anreolaethol
	Gwaddolion £000	Cyfyngedig £000	Digyfyngiad £000		
Gweddill ar 1 Awst 2014	43,792	4,985	35,911	78,118	162,806
Gwarged/(diffyg) o incwm cynhwysfawr	1,361	203	(1,658)	-	(94)
Trosglwyddiadau rhwng arian wrth gefn o ailbriso ac arian wrth gefn o incwm a gwariant	-	-	2,825	(2,825)	-
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	1,361	203	1,167	(2,825)	(94)
Gweddill ar 1 Awst 2015	45,153	5,188	37,078	75,293	162,712
Gwarged/(diffyg) o incwm cynhwysfawr	3,206	(23)	(16,147)	-	(12,964)
Trosglwyddiadau rhwng arian wrth gefn o ailbriso ac arian wrth gefn o incwm a gwariant	-	-	2,825	(2,825)	-
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	3,206	(23)	(13,322)	(2,825)	(12,964)
Gweddill ar 31 Gorffennaf 2016	48,359	5,165	23,756	72,468	149,748

DATGANIAD CYFUN O'R LLIF ARIAN am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2016

	Nodyn	2016 £000	2015 £000
Llif arian o weithgareddau gweithredol			
Diffyg am y flwyddyn		(2,509)	(4,157)
Addasiad am eitemau heb gynnwys arian parod			
Dibrisiant	10	11,217	10,472
Enillion ar fuddsoddiadau	21/10	(2,712)	(1,357)
Gostyngiad yn y stoc	14	521	210
Gostyngiad mewn dyledwyr	15	3,291	319
Gostyngiad mewn credydwyr	18/19	(997)	(2,386)
Costau llog pensiynau	26	702	930
Cyfraniad at bensynau yn fwy na chost y gwasanaeth cyfredol	26	(1,624)	(1,363)
Newid yn nhybiaethau cynllun lleihau diffyg yr USS	26	1,174	4,593
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau eraill	20	665	(66)
Addasu ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu gyllido			
Incwm o fuddsoddiadau	5	(956)	(995)
Llog taladwy	8	3,170	2,397
Incwm o waddolion	21	(520)	(4)
Colled o werthu asedau sefydlog		115	1,421
Incwm o grantiau cyfalaf o fewn grantiau ymchwil	2/4	(4,247)	(4,038)
Mewnllif arian parod net o weithgareddau gweithredol		7,290	5,976
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Elw o werthu asedau sefydlog		22	-
Derbyniadau o grantiau cyfalaf		1,039	1,060
Incwm o fuddsoddiadau	5	956	995
Taliadau a wnaed i brynu asedau sefydlog		(5,956)	(17,762)
		(3,939)	(15,707)
Llif arian o weithgareddau cyllido			
Llog a dalwyd		(1,786)	(248)
Arian parod gwaddolion a dderbyniwyd	21	520	4
Credydwr newydd hirdymor		-	14,310
		(1,266)	14,066
Cynnydd mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y flwyddyn			
		2,085	4,335
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	23	38,124	33,789
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	23	40,209	38,124

NODIADAU AR Y DATGANIAD ARIANNOL am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2016

	Nodiadau	2016		2015	
		Cyfun £000	Prifysgol £000	Cyfun £000	Prifysgol £000
1 Ffioedd dysgu a chontractau addysg					
Myfyrwyr cartref ac UE amser llawn		54,085	54,085	56,812	56,812
Myfyrwyr rhyngwladol amser llawn		5,377	5,377	6,560	6,560
Myfyrwyr rhan-amser		614	614	582	582
Grantiau Cynnal Hyfforddiant Ymchwil		369	369	731	731
		<u>60,445</u>	<u>60,445</u>	<u>64,685</u>	<u>64,685</u>
2 Grantiau cyrff cyllido					
<i>Grant Adnewyddol</i>					
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru		8,657	8,657	9,933	9,933
Grant Cyfalaf		1,511	1,511	1,338	1,338
<i>Grantiau Penodol</i>					
Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru		2,323	2,323	2,263	2,263
		<u>12,491</u>	<u>12,491</u>	<u>13,534</u>	<u>13,534</u>
3 Grantiau a chontractau ymchwil					
Cynghorau ymchwil		10,886	10,886	9,526	9,526
Elusennau ymchwil		871	871	643	643
Llywodraethau (DU a thramor)		7,800	7,800	9,099	9,099
Diwydiant a masnach		2,111	2,111	2,202	2,202
Arall		44	44	139	139
		<u>21,712</u>	<u>21,712</u>	<u>21,609</u>	<u>21,609</u>
4 Incwm arall					
Llety, arlwyo a chynadleddau	27	11,445	11,445	13,579	13,579
Grantiau refferni eraill		1,602	1,602	1,504	1,504
Gwasanaethau eraill a roddwyd		1,999	1,999	2,580	2,580
Canolfan y Celfyddydau	28	3,043	3,043	3,489	3,489
Ffermydd		1,513	1,513	1,572	1,572
Rhyddhawyd o grantiau cyfalaf gohiriedig		2,736	2,736	2,700	2,700
Incwm arall		4,510	4,510	3,769	3,769
		<u>26,848</u>	<u>26,848</u>	<u>29,193</u>	<u>29,193</u>
5 Incwm o fuddsoddiadau					
Incwm buddsoddi o waddoliadau	22	401	401	408	408
Incwm buddsoddi arall		555	555	587	587
		<u>956</u>	<u>956</u>	<u>995</u>	<u>995</u>
6 Rhoddion a gwaddolion					
Gwaddolion newydd	21	520	520	4	4
Rhoddion â chyfyngiadau penodol	22	141	141	243	243
Rhoddion digyfyngiad		63	63	65	65
		<u>724</u>	<u>724</u>	<u>312</u>	<u>312</u>

NODIADAU AR Y DATGANIAD ARIANNOL (parhad)

	2016		2015	
	Cyfun £000	Prifysgol £000	Cyfun £000	Prifysgol £000
7 Costau Staff				
Cyflogau	55,847	55,847	56,454	56,454
Costau nawdd cymdeithasol	4,325	4,325	4,191	4,191
Costau pensiwn yr USS	7,465	7,465	10,070	10,070
Costau pensiynau eraill	2,413	2,413	2,683	2,683
	<u>70,050</u>	<u>70,050</u>	<u>73,398</u>	<u>73,398</u>
Costau staff - ailstrwythuro	<u>723</u>	<u>723</u>	<u>2,488</u>	<u>2,488</u>

Taliadau i'r Is-Ganghellor (o 1 Awst 2015 i 31 Gorffennaf 2016)

	2016 £000	2015 £000
Taliadau i'r Is-Ganghellor		
Cyflog	153	151
Lwfans amhensiynadwy	52	52
Bonws	31	20
Buddiannau trethadwy ar ffurfiau eraill	1	1
Cyfraniadau pensiwn i'r USS	17	24
	<u>254</u>	<u>248</u>

Taliadau'r Is-Ganghellor Dros dro (o 1 Chwefror 2016 i 31 Gorffennaf 2016)

	2016 £000	2015 £000
Cyflog	61	-
Lwfans amhensiynadwy	14	-
Cyfraniadau pensiwn i'r USS	11	-
	<u>86</u>	<u>-</u>

Cafodd Cyngor y Brifysgol wybod gan yr Is-Ganghellor ar 04 Rhagfyr 2015, ei bod yn dymuno rhoi'r gorau i swydd yr Is-Ganghellor ar ddiwedd ei chyfnod ar 31 Gorffennaf 2016. Yn rhan o'r trefniadau trosglwyddo, cymerwyd y cyfrifoldebau gweithredol gan yr Is-Ganghellor Dros Dro (gynt Dirprwy Is-Ganghellor, Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol) o 01 Chwefror 2016. Bydd yr Is-Ganghellor Dros Dro yn parhau yn y swydd hon nes bod rhywun yn cael ei benodi i swydd yr Is-Ganghellor newydd a'r unigolyn hwnnw wedi cychwyn ar y swydd.

Yn ogystal â'r datgeliadau uchod, talwyd £102,489 i'r Is-Ganghellor ar ôl i'w chyflogaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth ddod i ben, a gyllidwyd o weithgareddau gweithredol arferol. Ar 31 Gorffennaf 2016, mae'r Brifysgol wedi cynnwys darpariaeth o £30,000 am unrhyw symiau eraill a allai fod yn daladwy.

Dangosir taliadau'r Is-Ganghellor a'r Is-Ganghellor Dros Dro ar yr un sail â'r staff eraill ar daliadau uwch.

Telir cyfraniadau'r Brifysgol i'r USS ar yr un raddfa ag a wneir i staff academiaidd eraill.

NODIADAU AR Y DATGANIAD ARIANNOL (parhad)

7 Costau Staff (parhad)

Mae'r taliadau i'r staff eraill ar gyflogau uwch, ac eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr (yn unol â'r gyfarwyddeb briodol ar gyfrifon), wedi'u dangos isod. Dangosir yr holl daliadau cyn tynnu unrhyw symiau 'aberthu cyflog':

	Nifer y Staff 2016	Nifer y Staff 2015
£100,000-£109,999	1	1
£110,000-£119,999	2	2
£120,000-£129,999	1	-
£220,000-£229,999	1	1
	<u>5</u>	<u>4</u>

Cyfartaledd nifer staff yn ôl prif categorïau:	2016 No.	2015 No.
Academaidd	424	407
Ymchwil	175	197
Rheoli ac arbenigol	353	366
Technegol	150	118
Eraill	498	555
	<u>1,600</u>	<u>1,643</u>
	2016 £000	2015 £000
Taliadau i bersonél rheoli allweddol	<u>1,365</u>	<u>1,440</u>

Aelodau'r Cyngor

Ni chafodd yr un o aelodau'r Cyngor unrhyw daliad gan y Brifysgol am fod yn aelod o'r Cyngor yn ystod y flwyddyn (2014-15 £dim). Nid yw aelodau staff y brifysgol a benodir ar y Cyngor yn derbyn taliad ychwanegol o unrhyw fath yn gysylltiedig â bod yn aelod o'r Cyngor.

Ni chafodd yr un o aelodau'r Cyngor daliad am wasanaethau eraill a ddarparwyd ganddynt i'r Brifysgol yn ystod y flwyddyn, heblaw am wasanaethau o dan gontract cyflogaeth yn achos aelodau'r Cyngor sydd hefyd yn gyflogedig gan y Brifysgol, (2014-15 £dim).

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i 11 o aelodau'r cyngor, neu ar eu rhan, oedd £12,723 (2014-15 £16,053 i 12 o aelodau'r cyngor).

Talwyd hyn am gostau teithio a chynhaliadaeth yn codi o ganlyniad i'w presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill yn rhinwedd dyletswyddau swyddogol.

NODIADAU AR Y DATGANIAD ARIANNOL (parhad)

8	Llog a chostau cyllid eraill	2016		2015	
		Cyfun £000	Prifysgol £000	Cyfun £000	Prifysgol £000
	Llog ar Lety Myfyrwyr Fferm Penglais	3,170	3,170	2,397	2,397
	Gwahaniaethau Cyfnewid	34	34	-	-
	Cost llog ar rwymedigaethau pensiwn yr USS	228	228	276	276
	Tâl net ar y cynllun pensiwn	474	474	654	654
	Arall	-	-	1	1
		3,906	3,906	3,328	3,328

9	Dadansoddiad o gyfanswm gwariant yn ôl gweithgareddau				
	Gwariant academiaidd a pherthynol	58,678	58,678	58,178	58,178
	Gweinyddu a gwasanaethau canolog	11,988	11,988	12,263	12,263
	Tir ac adeiladau	19,702	19,702	19,092	19,092
	Llety, arlwyo a chynadleddau	27	9,110	9,110	9,851
	Grantiau a chontractau ymchwil	15,524	15,524	18,719	18,719
	Treuliau gweithredu eraill	13,280	13,280	16,318	16,318
		128,282	128,282	134,421	134,421

Mae treuliau gweithredol eraill yn cynnwys:

Taliadau i archwilwyr allanol am wasanaethau archwilio	60	60	59	59
Taliadau i archwilwyr allanol am wasanaethau heblaw archwilio	245	245	150	150
Costau ailstrwythuro sylfaenol	7	723	723	2,488

Diswyddo Gwirfoddol

Mae'r ymrwymiad i ariannu diswyddiadau gwirfoddol yn ymwneud â threfniadau y cytunwyd arnynt a disgwyllir y bydd costau i'w talu ymhen un flwyddyn.

NODIADAU AR Y DATGANIAD ARIANNOL (parhad)

10 Asedau Sefydlog Cyfun

	Rhydd- daliad £000	Prydles £000	Cyfarpar a Pheiriannau £000	Meddal- wedd £000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu £000	Asedau treftadaeth £000	Cyfanswm £000
Cost a phrisiant							
Ar 1 Awst 2015	216,871	4,163	48,509	711	46,930	1,347	318,531
Ychwanegiadau	1,574	1,263	1,157	-	1,962	-	5,956
Trosglwyddiadau	1,715	44,575	-	-	(46,290)	-	-
Gwarged ar ôl ailbriso	26	-	-	-	-	-	26
Gwaredwyd	-	-	(411)	-	-	-	(411)
Ar 31 Gorffennaf 2016	220,186	50,001	49,255	711	2,602	1,347	324,102
Yn cynnwys y prisiad	153,480	50,001	-	-	-	1,347	204,828
Cost	66,706	-	49,255	711	2,602	-	119,274
	220,186	50,001	49,255	711	2,602	1,347	324,102
Dibrisiant							
Ar 1 Awst 2015	33,416	835	39,514	361	-	-	74,126
Tâl am y flwyddyn	7,053	1,124	2,898	142	-	-	11,217
Gwaredwyd	-	-	(274)	-	-	-	(274)
Ar 31 Gorffennaf 2016	40,469	1,959	42,138	503	-	-	85,069
Gwerth net yn ôl y llyfr							
Ar 31 Gorffennaf 2016	179,717	48,042	7,117	208	2,602	1,347	239,033
Ar 31 Gorffennaf 2015	183,455	3,328	8,995	350	46,930	1,347	244,405
Y Brifysgol							
Cost a phrisiant							
Ar 1 Awst 2015	216,871	4,163	48,509	711	46,290	1,347	317,891
Ychwanegiadau	1,574	1,263	1,157	-	1,193	-	5,187
Trosglwyddiadau	1,715	44,575	-	-	(46,290)	-	-
Gwarged ar ôl ailbriso	26	-	-	-	-	-	26
Gwaredwyd	-	-	(411)	-	-	-	(411)
Ar 31 Gorffennaf 2016	220,186	50,001	49,255	711	1,193	1,347	322,693
Yn cynnwys y prisiad	153,480	50,001	-	-	-	1,347	204,828
Cost	66,706	-	49,255	711	1,193	-	117,865
	220,186	50,001	49,255	711	1,193	1,347	322,693
Dibrisiant							
Ar 1 Awst 2015	33,416	835	39,514	361	-	-	74,126
Tâl am y flwyddyn	7,053	1,124	2,898	142	-	-	11,217
Gwaredwyd	-	-	(274)	-	-	-	(274)
Ar 31 Gorffennaf 2016	40,469	1,959	42,138	503	-	-	85,069
Gwerth net yn ôl y llyfr							
Ar 31 Gorffennaf 2016	179,717	48,042	7,117	208	1,193	1,347	237,624
Ar 31 Gorffennaf 2015	183,455	3,328	8,995	350	46,290	1,347	243,765

NODIADAU AR Y DATGANIAD ARIANNOL (parhad)

11 Buddsoddi mewn mentrau ar y cyd

Y buddsoddiad yn Aberystwyth Limited

Mae'r Brifysgol yn dal 51% o gyfran yn Aberystwyth Limited, cwmni cyfyngedig gan gyfranddaliadau, sydd wedi ei gofrestru ym Mawrisiws. Mae'r 49% sy'n weddill yn eiddo i Boston Campus Limited. Mae'r cwmni'n cael ei drin fel menter ar y cyd a defnyddir y dull ecwiti wrth lunio'r cyfrifon.

	2016 £000	2015 £000
Cyfrif incwm a gwariant		
Incwm	173	-
Gwariant	173	-
Diffyg cyn treth	<u>-</u>	<u>-</u>
Y Fantolen		
Asedau sefydlog	-	-
Asedau cyfredol	79	2
Credydwy: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	78	1
Credydwy: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn	-	-
Cyfanswm ecwiti	<u><u>1</u></u>	<u><u>1</u></u>

Yn ystod 2015-16, cynhyrchodd Aberystwyth Ltd £174,718 (2014-15 £dim) o incwm net drwy ffioedd dysgu. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd £40,887 (2014-15 £dim) yn ddyledus i Brifysgol Aberystwyth Ltd am ei chyfran o ffioedd dysgu. Ar ôl cyfrifo am yr incwm hwnnw, £375,000 (2014-15 £1,377) oedd gwariant net Prifysgol Aberystwyth am ddarparu gweithgareddau academaidd ym Mawrisiws. Costau Prifysgol Aberystwyth yw'r rhain ac maent wedi eu cynnwys o fewn y costau gweithredol eraill.

Y buddsoddiad yn Aber Bangor Consultancy Limited

Mae Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor yn berchen ar gyfran 50% bob un o Aber Bangor Consultancy Ltd, sy'n darparu gwaith ymgynghori i brosiectau arbenigol sy'n gofyn am elfen fwy sylweddol o ymchwil a datblygu na'r hyn y gall ymchwilwyr Prifysgolion eu datblygu a'u cyflawni.

Yn ystod y flwyddyn, cododd y Brifysgol £35,812 (2014-15 £8,950) ac £11,461 (2014-15 £2,816) ar Aber Bangor Consultancy Ltd am wasanaethau gweinyddol. Ar ddiwedd y flwyddyn yr oedd £26,004 (2014-15 £993) ar Aber Bangor Consultancy Ltd i'r Brifysgol.

	Aber Bangor Ltd	
	2016 £000	2015 £000
Cyfrif incwm a gwariant		
Incwm	45	12
Gwariant	48	13
Diffyg cyn treth	<u>(3)</u>	<u>(1)</u>
Y Fantolen		
Asedau sefydlog	-	-
Asedau cyfredol	38	17
Credydwy: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	30	10
Credydwy: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn	-	-
Asedau net	<u><u>8</u></u>	<u><u>7</u></u>

NODIADAU AR Y DATGANIAD ARIANNOL (parhad)

12 Buddsoddiadau yn is-gwmniau'r Brifysgol

Cwmni	Prif weithgaredd	Status	Note
Abertec Ltd	Gwaith ymchwil	Perchen 100%	-
Aber Trading Ltd	Gwaith ymgynghorol a gwaith ymchwil	Perchen 100%	-
Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (AIEC)	Ymchwil i feysydd bwyd, maeth a diogelu cyflenwadau ynni, ynni adnewyddadwy a biotechnolegau	Perchen 100%	-

Y buddsoddiad yn Abertec Limited

Roedd y Brifysgol yn berchen ar holl gyfalaf cyfranddaliadau a roddwyd i Abertec Limited, cwmni a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Daeth masnachu'r cwmni i ben yn 2013-14, a chafodd ei ddiddymu ar 5ed Gorffennaf 2016 gyda dyled o £dim (2014-15 £dim) i Brifysgol Aberystwyth.

Y buddsoddiad yn Aber Trading Limited

Mae Aber Trading Ltd yn olynu Abertec. Y brifysgol yw perchennog holl gyfalaf cyfranddaliadau Aber Trading Ltd, sef cwmni a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n cyflawni gwaith ymchwil ar gontract a gwaith ymgynghorol ar ei rhan. Roedd gan Aber Trading Cyfyngedig £11,611 o ddyled i'r Brifysgol ar ddiwedd y flwyddyn (2014-15 £21,674).

Yn ystod y flwyddyn cododd Prifysgol Aberystwyth £11,611 (2014-15 £28,565) ar Aber Trading Limited.

